

DAU DYLWYTH

DRAMA

GAN

leuan Griffiths

(Awdur "Dirgel Ffydd", etc.)



MCMXXXVIII

*Cymeriadau a digwyddiadau dychmygol sydd yn y ddrama hon
o'r dechrau i'r diwedd.*

DAU DYLWYTH

GOLYGFA:

*Yr un yw'r olygfa drwy'r ddrama—cegin fawr Cwmhelyg.
Hen ddodrefn derw sydd ynddi ; bwrdd yn y canol, rhai cadeiriau
derw o'i amgylch, cadair freichiau ger y lle tân ar y chwith a
dreser yn y cefn ar y dde. Yng nghanol y cefn y mae ffenestr.
Y mae drws ar y chwith yn arwain i'r gegin fach ac i'r llaethdy ;
hwn yw'r drws a ddefnyddir i fynd i mewn ac allan o'r buarth.
Y mae drws arall ar y dde yn arwain i'r gweddill o'r tŷ.
Uwchben y lle tân y mae rhestl i'r dryll ac y mae'r pethau
arferol ar y silff-ben-tân.*

*Gan fod pymtheng mlynedd rhwng y prolog ac Act I rhaid
newid ychydig ar y llwyfan rhyngddynt. Tebyg y bydd newid
y lliain bwrdd a llenni'r ffenestr yn ddigon. Gorau i gyd po
leiaf o amser a gymerir wrth y gwaith hwn.*

PROLOG

*[Pan gyfyd y llen, gwelir MRS. LLOYD yn glanhau cyllyll â
bocs a bricsen wrth y bwrdd. Benyw tua 35 oed ydyw,
eithr y mae gofid wedi gwneud ei ôl ar ei hwyneb yn barod.
Daw WILLIAM i mewn yn araf o'r chwith. Er ei fod tua 60
oed, y mae'n heini ei osgo.]*

WILLIAM [*yn eistedd yn y gadair freichiau*]. Mae'r giwed
yna wedi bod wrthi eto, Rachel.

MRS. LLOYD : Pwy ? Y Morgansiaid ?

WILLIAM : Pwy ond y nhw ?

MRS. LLOYD : Beth maen nhw wedi'i wneud ?

WILLIAM : Saethu Rofer.

MRS. LLOYD : Beth ? Ble cawsant gyfle ? Pwy gafodd afael arno ?

WILLIAM : Ifan gadd afael arno—yn tynnu ei anadl ola yn y Waun Fawr. Doedd ganddyn nhw ddim digon o ddynoliaeth i'w orffen yn iawn—fe'i gadawsant i drigo bob yn dipyn. Druan o Rofer !

MRS. LLOYD : Ond beth wnaeth e iddyn nhw ei saethu ?

WILLIAM : Roedd Ifan yn meddwl ei fod wedi dilyn cwningen i mewn i gaeau Rhydyfran ac i un ohonynt ei saethu yno. Fe glywodd ergyd yn gynnar yn y prynhawn, medde fe.

MRS. LLOYD : Ond tadcu, wyddoch chi ddim yn iawn ai bechgyn Rhydyfran a'i saethodd ai peidio.

WILLIAM : Gwybod ! Gwn yn iawn, cystal a phe-tawn i wedi'i gweld nhw wrth yr anfadwaith.

MRS. LLOYD : Pa ddrwg oedd Rofer wedi'i wneud ?

WILLIAM : Wnaeth e ddim drwg i neb—ei unig fai oedd mai ein ci ni ydoedd.

MRS. LLOYD : O'r annwyl, roeddwn i'n dechrau meddwl bod pawb wedi anghofio'r hen gynnen erbyn hyn. Roedd pethau wedi bod mor dawel y chwe mis diwetha.

WILLIAM : Fydd yma ddim anghofio fyth, Rachel, ac fe ddylit ti o bawb wybod hynny.

MRS. LLOYD : Dydw i ddim wedi anghofio, ac nid yw'n debyg y gwna i. Ond rwy wedi sylweddoli nad yw cadw'r hen gynnen yn fyw yn gwneud lles i neb—dim ond magu gofid i ni fel teulu.

WILLIAM [*yn araf a phendant*] : Tra bo un o'r Morgansiaid yn ffermio dros y clawdd ffin i'r fferm hon, mi wna fy ngorau i wneud iddyn nhw fel y maen nhw wedi gwneud i mi a'm teulu. Ac nid yw Rofer druan, ond un marc arall i'w roi yn y cownt gyferbyn â'u henwau.

MRS. LLOYD : Meddylwch am y plant—dyna'r etiffeddiaeth y byddwch yn ei throsglwyddo iddynt.

WILLIAM : Mae'n gymaint i'r plant ag yw e i ti a minnau.

MRS. LLOYD : Ond dydy e'n ddim i'r plant eto—pam na allant dyfu i fyny heb gysgod yr hen gweryl a'r hen elyniaeth drostynt.

WILLIAM : Ni all neb o'r teulu hwn edrych ar wŷr Rhydyfran ond fel gelynion, Rachel. Beth wyt ti'n feddwl a fydd Dafydd yn ei ddweud pan ddaw e adre o'r ysgol yn y man a dim Rofer yn ei gwrdd ym mhen draw'r cae ?

MRS. LLOYD [*yn gyflym a chyda thaerineb*] : Dydych chi ddim i ddweud wrtho beth sydd wedi digwydd i Rofer.

WILLIAM : Fe fydd gael gwybod. Ac y mae ganddo hawl i gael gwybod. Ei gi ef oedd Rofer.

MRS. LLOYD : Ie, ond peidiwch â dweud wrtho pwy a'i saethodd. Dwedwch mai anlwc oedd, dwedwch rywbeth, rhywbeth ond y gwir. Peidiwch â'i dynnu ef i mewn i'r gynnen ac yntau'n ddim ond deg oed. Dydy hi ddim ond creulondeb i'w dynnu ef ac Olwen i mewn i'r gynnen—rydw i wedi gofalu nad oes neb wedi sôn dim am y peth wrth y ddau—gadewch iddynt fod yn eu diniweidrwydd. Fy mhlant i ydyn nhw ac y mae gen i hawl i'w magu nhw fel yr ydw i am.

WILLIAM : Wyt ti'n anghofio beth a ddigwyddodd i'w tad ?

MRS. LLOYD : Nac ydw i ddim yn anghofio. Roedd e'n ŵr i mi yn ogystal â bod yn fab i chi—sut galla i anghofio fyth ? Ond rydw i am i'r plant dyfu i fyny yn eu hanwybodaeth. Maent mor hapus ac yr ydw i am iddynt gadw'r hapusrwydd yna cyhyd ag sy'n bosibl.

WILLIAM : Dydw i ddim yn gweld bai arnat ti, Rachel. Ond, weld di, dwyt ti ddim wedi dod yn un o'r teulu yma eto ac ni ddoi di fyth, greda i. Ni fuost

ti erioed yn teimlo tuag at wŷr Rhydyfran fel yr ydw i ac fel yr oedd Dafydd dy wŷr yn teimlo. A phan ddaethant ar ei draws y noson honno . . .

MRS. LLOYD [*ar ei draws*] : Dydych chi ddim yn gwybod mai'r Morgansiaid a ddaeth ar ei draws. Ni wyddoch chi ddim beth a ddigwyddodd. A does gennyh chi run hawl i ddweud wrth y plant mai'r Morgansiaid oedd yn gyfrifol am farwolaeth eu tad.

WILLIAM : Rydw i mor sicr mai un o'r Morgansiaid a ollyngodd ergyd ar ôl yr ebol yr oedd Dafydd yn ei farchogaeth . . .

MRS. LLOYD : Efallai mai rhedeg i ffwrdd a wnaeth yr ebol.

WILLIAM : Rydw i wedi dweud wrthyt ganwaith, fe saethwyd ergyd ar ôl yr ebol i godi ofn arno ac fe dafodd Dafydd ar ei ben. Dyna beth a ddigwyddodd ac yr wyf mor sicr o hynny ag yr ydw i fod yr haul yn mynd i godi fory. A phan fydda i a thithau wedi mynd, fe fydd Dafydd ac Olwen yn cofio'r hyn a wnaethpwyd i'w tad, a'u plant hwy yn cofio hefyd, a thra bo Morgansiaid yn Rhydyfran, fe fydd rhywun yn gallu pwyntio bys atynt a'u hatgoffa o'r hyn a wnaethant y noson honno.

MRS. LLOYD : Beth gwell fyddwch chi a hwythau a phawb arall o hynny? Ni wnaeth gelyniaeth a digofaint fel hyn les i neb erioed. Ceisiwch sylweddoli beth a fyddwch yn ei wneud. Chwerwi ysbryd a natur y plant—rhoi baich ar eu hysgwyddau—baich i'w gario drwy eu hoes. Dau sydd mor hapus a llon bob amser.

WILLIAM : Rhaid i ti gofio y gofala gwŷr Rhydyfran na chânt fod yn eu hanwybodaeth yn hir. Na, tra bo'r ddau deulu yn ffermio y naill ochr i'r clawdd ffin, y mae mor amhosibl i anghofio'r hyn a fu ac yw hi i'r ci a'r hwch fwyta o'r un cafn.

MRS. LLOYD [*yn daer ac eto yn sylweddoli mor anobeithiol oedd ei chais*] : Tadcu, dewch i ffwrdd, dewch i ffwrdd tra

bo'r plant yn ifainc, cyn iddynt sylweddoli'r hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol.

WILLIAM : Symud o Gwmhelyg?

MRS. LLOYD : Ie, pam lai? Mae fferm yn rhydd nawr yn ymyl lle Marged fy chwaer yn Lloegr—rhywle ymhell, bell oddi yma—lle na bydd sôn am dylwyth Rhydyfran—lle geill y ddau blentyn dyfu i fyny heb yr hen gynnen yma yn bla ar eu heneidiau. Dechrau bywyd newydd, a hyd yn oed os na allwn ni anghofio yr hyn a fu, ni fydd eisiau i'r plant fyth ddod i wybod.

WILLIAM : Dwyt ti ddim ddim yn un o'r tylwyth, Rachel, neu ni fuasit yn meddwl am y fath ynfyrwydd. Ymadael â'r lle yma?—fferm fy nhad a 'nhadcu yn unig oherwydd pobl Rhydyfran? A wyt ti'n meddwl y gallwn i ddioddef gorfoledd y gethern yna petawn i'n sôn am symud? A wyt ti am i Dafydd allu dannod i mi pan fydd e'n ugain oed fy mod i'n credu na fyddai'n ddigon o ddyn i wrthsefyll gelyniaeth y Morgansiaid?

MRS. LLOYD : Be waeth am hynny? Ni ddaw i wybod am y gynnen. Rydw i am fagu fy mhiant yn rhywle heb gysgod y cwmwl hwnnw yno.

WILLIAM : Mae gwaed fy mab yng ngwythiennau Dafydd ac ni fuaswn i ddim yn gwneud fy nyletswydd tuag ato petawn i ddim yn dweud wrtho am yr hyn a ddigwyddodd i'w dad.

MRS. LLOYD : Ond ni ddaw hynny â'i dad yn ôl. Pa lesâd â fydd y cwbl? Roedd colli ei dad yn fwy o golled i mi nag i neb, ond . . .

WILLIAM : Rachel fach, ddoi di fyth i deimlo tuag at y tylwyth yna fel yr ydym ni fel teulu yn teimlo ac fel y bydd Dafydd ac Olwen yn teimlo ar ôl cael gwybod y cwbl. A wyt ti'n meddwl y bydd Dafydd yn fodlon colli Rofer?

MRS. LLOYD : Tadcu, rwy'n erfyn arnoch chi, gwnewch addo peidio â dweud y gwir wrtho heno.

WILLIAM : Mae'n rhaid iddo gael gwybod rywbyrd, Rachel.

MRS. LLOYD : Rwy'n gofyn i chi er mwyn y plant ac er eich mwyn chithau. Rydych ar y groesffordd heno. Os gwrthodwch chi ddilyn y llwybr a ofynnais i chi ei ddilyn, fe ddanfonwch y ddau blentyn yna ar lwybr sy'n arwain i atgasedd a dialedd, a chymylu eu holl fywyd. Rydych chi'n hen, ond y mae gan y ddau yna flynyddoedd lawer o'u blaen. Eu mam sy'n erfyn arnoch chi—nid er fy mwyn fy hun, ond er eu mwyn hwy.

[*Clywir llais DAFYDD yn gweiddi 'Mam', yna rhuthra i meun—bachgen oddeutu 10 mlwydd oed.*]

DAFYDD [*wrth ddod trwy'r drws*] : O mam . . . [*yna gwél ei dadcu a thry ato*] : Tadcu, mae Rofer wedi marw. Mae Ifan yn torri bedd iddo fe yn y cae. Beth ddigwyddodd iddo fe, tadcu ?

[*Ei fam yn codi ac yn ei arwain oddi wrth ei dadcu ac yna yn eistedd drachefn ger y bwrdd gan gadw DAFYDD wrth ei hochr.*]

MRS. LLOYD : Rhaid i ti beidio â holi beth a ddigwyddodd i Rofer, Dafydd.

DAFYDD : Ond pam, mam ?

MRS. LLOYD : Fe gei di gi arall yn ei le.

DAFYDD : Dydw i ddim am gi arall—eisiau Rofer sydd arna i. [*Yn mynnu ymryddhau o'i dwylo ac yn mynd yn ôl at ei dadcu*]. Pam mae Rofer wedi marw, tadcu ? A fuodd e'n gwneud drwg ?

WILLIAM : Naddo, machgen i. Wnaeth Rofer ddim drwg erioed.

DAFYDD : Pam mae e wedi marw, ynte ?

WILLIAM : Fe ddweda i wrthyt ti maes o law.

DAFYDD : Ond rydw i am gael gwybod nawr. Roedd e'n iawn pan es i i'r ysgol bore heddiw. Fe ddaeth gyda mi i ben draw'r cae. Ac mae Ifan yn pallu dweud

beth a ddigwyddodd. Roedd ei'n dweud wrthyf am ofyn i chi.

MRS. LLOYD [*yn cydio ynddo a'i dynnu ati eto*] : Dafydd, os cei di boni i'w marchogaeth, a wyt ti'n fodlon peidio â gofyn rhagor sut y cafodd Rofer ei ddiwedd ?

DAFYDD [*yn troi ac wynebu ei dadcu*] : Chi laddodd Rofer, tadcu ! Dyna pam na ddwedwch chi.

WILLIAM : Fi ! Nage, machgen i, fuaswn i ddim yn debyg o wneud hynny.

DAFYDD : Pam na ddwedwch chi ynte ?

WILLIAM : Cael ei saethu wnaeth e, Dafydd ; Ifan a'i cafodd yn gorwedd yn . . .

MRS. LLOYD : Dafydd, cerdd allan am funud at Ifan.

DAFYDD [*yn cydio'n dynn yn ei dadcu*] : Na ! Rydw i am gael gwybod. Pwy saethodd e, tadcu ?

WILLIAM : Fe fynn gael gwybod ac y mae ganddo hawl i gael gwybod. Ei gi ef oedd Rofer.

MRS. LLOYD : Nac oes ganddo, ddim hawl. Ni wŷr beth y mae'n ei ofyn. Arnoch chi mae'r cyfrifoldeb i gyd. Peidiwch â cheisio ei daflu ar ei ysgwyddau ef.

DAFYDD [*yn siglo braich ei dadcu*] : Dwedwch, tadcu !

WILLIAM : Mae'n rhaid iddo gael gwybod, Rachel.

MRS. LLOYD : Arnoch chi mae'r cyfrifoldeb, cofiwch. Chi yn unig.

WILLIAM : Mae'r cyfrifoldeb am farwolaeth ei dad arnom ni i gyd.

DAFYDD [*yn siglo ei fraich*] : Dwedwch, tadcu. Pwy saethodd Rofer ?

WILLIAM [*yn rhoi ei ddwy law ar ei ysgwyddau ac yn syllu i'w wyneb*] : Shincyn Rhydyfran a'i saethodd e, Dafydd.

DAFYDD : Ond pa ddrwg oedd Rofer wedi'i wneud ?

WILLIAM : Wnaeth e ddim drwg o gwbl.

DAFYDD : Pam ynte ? Pam ynte ?

WILLIAM : Fe ddoi di i wybod y rheswm wedi i ti dyfu i fyny, Dafydd.

DAFYDD : Ond doedden ni ddim wedi gwneud un drwg i'w ci nhw. Ydych chi ddim yn mynd i gosbi pobol Rhydyfran, tadcu? Ydych chi ddim yn mynd i saethu eu ci nhw.

MRS. LLOYD : Dafydd! Dwyt ti ddim i ddweud pethau felna.

DAFYDD : Ydych chi ddim, tadcu? Os na wnewch chi, fe wna i pan fydda i wedi tyfu i fyny.

MRS. LLOYD [*yn cydio ynddo yn drwsogl*] : Rhaid i ti addo i mi nawr, Dafydd, na ddwedi di ddim peth fel yna eto.

DAFYDD [*yn ei wynebu*] : Ond fy nghï i oedd Rofer. Doedd ganddyn nhw ddim hawl i'w saethu e.

MRS. LLOYD : Fe gei di gi eto . . .

DAFYDD : Dydw i ddim cisiau ci arall. Fe gofia i am hyn pan fydda i . . . pan fydda i wedi tyfu i fyny. [*Rhedeg at ei dadcu*]. Faint sy'n raid i mi dyfu eto, tadcu, cyn bydda i'n ddigon mawr i handlo dryll?

MRS. LLOYD [*wrth ei dadcu*] : A ydych chi'n sylweddoli nawr beth yr ydych wedi'i wneud?

WILLIAM [*yn codi ac yn mynd at y drws chwïth*] : Dere allan gen i, Dafydd.

MRS. LLOYD : Rydych wedi cynnau tân na welwch chi na minnau mo'i ddiffodd.

[*WILLIAM a DAFYDD yn mynd.* MRS. LLOYD *yn eistedd ger y bwrdd.*]

LLEN.

Aeth pymtheng mlynedd heibio. Tuag wyth o'r gloch ar noson o haf yw'r amser. Eistedd IFAN yn y gadair freichiau ger y tân yn smocio ei getyn yn hamddenol. Mae'n anodd dweud faint yw ei oedran—rhywle rhwng yr hanner cant a'r trigain, mae'n debyg. Er ei fod yn ei ddillad gwaith, y mae'n syndod o deidi ac ystyried nad diwrnod marchnad ydyw. Ceisia boeri i'r lle tân eithr mid yw'n anelu yn gywir. Syrth y poeri ar y ffender. Cyfyd yn gyflym a chan benlinio o flaen y ffender a chan edrych yn ofnus at y drws chwïth, ceisia rwbio'r staen i ffwrdd â'i facyn. Daw SARA i mewn o'r Ch. a'r pocer a'r efail yn ei llaw, wedi'u gloywi'n barod i'w rhoi y tu fewn i'r ffender. Benyw tua 60 yw Sara, wedi'i gwisgo'n ddestlus a ffedog wen â'i blaen, ac yn gallu siarad yn ddi-dor. Er mai morwyn yw hi, y mae wedi bod gyda'r teulu am gymaint o flynyddoedd fel nad yw'n ofni dweud ei meddwl wrth bawb ohonynt.]

SARA [*wrth ddod i mewn*] : Ifan, a wyddost ti . . . [*erys*] A beth yn enw popeth sy'n gyfiawn wyt ti'n geisio ei wneud? [*Try IFAN ei ben ati. Gwêl hithau beth sydd wedi digwydd. Daw ymlaen a saif uwch ei ben.*] Ho! Fe'i gwela hi! [*Rhydd hwb iddo nes iddo hanner cwympo.*] Chwilio lle glân i boeri arno, aie? [*IFAN yn codi'n araf.*] Fe rodde i boeri i ti. [*Y mae ar ei ffordd yn ôl i'r gegin fach erbyn hyn ond clywir hi o hyd. Daw yn ôl yn union â chlwytyn yn ei llaw.*] Mae'n rhaid i ti gael poeri, mae'n debyg. Aethai'r byd ddim yn ei flaen heb hynny. Pam na ei di i'r stabal o oes yn rhaid i ti boeri? O na, dim ond y ffender oedd yn ddigon glân. [*Y mae ar ei phen-gliniau yn scrwbio erbyn hyn.*] Yn gywir fel petai'r ffender yma yn cadw'n lân ohoni ei hun. Ddim yn meddwl amdana i wrthi yn rhwbio a rhwbio i'w chael i ddisgleirio fel swllt, a wastio hanner tin o bolish arni, a'r rhiwmatig ym mhob cymal o'm breichiau i. Ddôn nhw ddim i'w lle am wythnos, os dôn nhw o gwbl. A'r cynhaea gwair ar bwys a phopeth. Ond dydy glanhau'r ffender unwaith ddim yn ddigon i dy sort di. [*Erys i anadlu ar y metel.*]

IFAN [*yn cael ei gysle*] : Ond anlwc oedd hi, fenyw I

SARA : Anlwc wir ! Llynca dy boeri am un noswait. A minnau am gael popeth i ddisgleirio erbyn y daw Olwen adre. Dod i mewn fan hyn fel rhyw lwdn a gwneud y lle yn sang-di-fang ar fy ôl i.

IFAN : Wyddost ti, Sara, mae'n drueni enbyd na fuasai'r rhiwmatig yn symud weithiau o'th freichiau i'th dafod.

SARA : Rwyd ti'n gallu siarad yn fras am y rhiwmatig nawr. Aros di nes y byddi di ddeng mlwydd yn hŷn. Fe fyddi di wedi newid dy gân dipyn erbyn hynny. [*Cyfyd.*] Dyna ! poera di ar y ffender yna eto.

[*Y mae'n dechrau glanhau'r canwyllbrennau o'r silff ben tân.*]

IFAN : Beth yw dy holl ffys ynghylch y polish tragwyddol yma. Dyw Olwen yn edrych dim ar ryw bethau bach fel yna. Chi'r menywod sydd â dim yn eich pennau chi sy'n edrych a oes sglein ar y ffender ac ar y canwyllbrennau yna. Wn i ddim beth sydd wedi codi yn dy ben di.

SARA : Yr un peth yn union ag a gododd yn dy ben di ac a'th achosodd i siafio heno yng nghanol yr wythnos. Peth na ddigwyddodd o'r blaen yng nghof neb.

IFAN : Mae hynny'n hollol wahanol . . . !

SARA : Rwy'n gwybod dy glefyd yn iawn. Meddwl y cei di gusan ganddi.

IFAN : A beth sy'n rong yn hynny ?

SARA : Fe wnest yn eitha reit i gropio tipyn ar y sofel sydd ar dy wyneb di. Trueni na fyddai Olwen yn dod adre bob dydd. O, rwy'n gwybod dy driciau di'n iawn. Fe fyddi'n swagro yn y Red Lion dy fod wedi magu merch sy'n B.A. ar dy liniau.

IFAN : Wel, a beth am hynny ? Mae e'n burion peth i swagro amdano. Nid pawb a all . . .

SARA : Yn gywir fel petai e'n rhyw gredit i ti ! O ran cymaint o les yr oedd e i Olwen, fe fuasai man a man iddi gael ei magu ar handl whilber.

IFAN : Cenfigen yw hynna, Sara, dim ond cenfigen. Rwyd ti'n gwybod gymaint o olwg sy gan Olwen arna i.

SARA [*yn rhoi'r canwyllbren yn ôl a chydio yn y llall*] : A beth welodd hi ynot ti erioed, wn i ddim.

IFAN : Y fi a'i dysgodd hi i rifo weld di. Roedd hi'n arfer dod gyda mi i'r mynydd i rifo'r defaid cyn iddi ddechrau mynd i'r ysgol. Ac ni welais i erioed neb yn dysgu 'nghynt. [*Y mae'n mynd i boeri i'r lle tân eithr ar y foment olaf, gwél SARA yn edrych arno, a pheidia.*]

SARA [*yn ei wyllo*] : Ie, dyna welliant. Gobeithio nad wyt ti wedi bod ddigon disynnwyr i sôn ar hyd y lle ei bod hi wedi cael ei B.A. a hithau heb gael gwybod eto. Fe fuasai'n beth arswydus i'r sôn fynd allan ei bod wedi pasio a hithau wedi ffaelu.

IFAN : Ffaelu ! Olwen ni yn ffaelu ! A ffaelodd hi unrhyw arholiad erioed. Petait ti wedi'i gweld hi'n dysgu rhifo defaid, ni fuasit ti'n sôn amdani'n ffaelu cael ei B.A.

SARA : Petai pawb sy'n gallu rhifo defaid yn cael B.A. fe fyddai yma le pert i'w gael. Os clywa i dy fod ti wedi dweud wrth rywun ei bod hi wedi pasio, fe gei di'r pryd o dafod gorau a gefaist ti erioed. Aros di nes cawn ni wybod yn iawn.

[*Yn ystod yr olygfa ganlynol, tywylller y llwyfan yn araf.*]

IFAN : Meddwl amdani yn B.A., Sara ! A rhyw ddwyflwydd oedd hi pan gyflogais i yma gynta ar ôl i'w thad gael yr anlwc. Roeddwn i'n golygu ymadael y flwyddyn ar ôl hynny. Fe gyflogais yn Nghaerfynnon—roeddwn wedi cymryd yr ern a phopeth, ond roedd meddwl ymadael â'r tamaid bach annwyl yn ormod i mi. Aros yma wnes i. A phan ddechreuodd hi ddod i rifo'r defaid gyda mi, dyna hi ar ben. Feddyliais i ddim ymadael wedyn, a dyma lle rydw i wedi bod am ddeunaw mlynedd.

SARA : Ti a dy ddeunaw mlynedd ! Fe gefais i y pedwerydd pâr o flancedi calangaea dwetha. Rydw i

yma ers naw mlynedd ar hugain pan ddaw calangaea nesa, dwy flynedd cyn i meistres ddod yma.

IFAN : A mae dy dafod di wedi tyfu bob blwyddyn oddi ar hynny. Petawn i yn lle meist'r, fe fyddwn wedi cael gwared arnat ti yn lle rhoi pâr o flancedi i ti. Er mae'n rhaid cyfadde, mae pethau wedi gwella arnom yma oddi ar i Dafydd dyfu'n ddigon o ddyn i dy handlo di. Mae tipyn o ofn Dafydd arnat ti, on'd oes ?

SARA : Ofn Dafydd wir ! A minnau wedi ei roi yn groes i fy ngliniau gymaint o weithiau.

IFAN : Efallai mai dyna paham y mae yn gallu dy drafod di cystal nawr. Roedd hi wedi mynd yn galed arnom oll yma cyn i Dafydd gadw gwahardd arnat. Peth ofnadwy yw menyw â thafod mor hir â'rh un di.

SARA : Fe gadwaf fi wahardd arnat ti beth bynnag. [*Yn rhoi'r ail ganhwyllbren yn ôl.*] Poera di ar y ffender yna eto ! [*Â i ddiwstio tipyn ar y dreser.*]

IFAN [*yn edrych ar ei oriawr*] : Fe ddylent fod yma erbyn hyn. Gobeithio nad yw'r cel melyn yna ddim wedi rhoi trwbl i Dafydd.

SARA : Er mwyn popeth, paid â sôn am anlwc heno. Ddylit ti ddim ei ollwng i fynd â'r cel melyn heno.

IFAN : Fe ddwedais i ddigon wrtho fe, ond wrandawai e ddim.

SARA : Fe ddylit fod wedi ei rwystro a thithau yn gwybod beth a ddigwyddodd i'w dad wrth fynnu mynd ag ebol heb hanner ei dorri i mewn allan i'r hewl.

IFAN : Beth gwell a fyddi di i sôn am hynny heno ? Mae ugain mlynedd bron oddi ar pan gafodd ei dad yr anlwc.

SARA : Ugain mlynedd neu beidio, dydw i ddim yn debyg o anghofio fyth. Mae Dafydd fel ei dad yn hollol. Rhaid oedd i hwnnw gael ceffyl oedd yn dawnsio ac yn llawn o ysbryd—ni rôl e ddim diolch am geffyl os na wnâi e godi ar ei draed ôl, nawr ac yn

y man. Ac y mae Dafydd yr un fath. Rhoi ceirch i'r ceffylau byth a beunydd !

IFAN : Paid â mynd yn erbyn gofid . . .

SARA : Ti ddechreuodd sôn am y peth.

IFAN : Wnes i ddim ond . . .

[*Daw Mrs. LLOYD i mewn o'r Dde. Y mae yn awr yn fenyw 50 oed, a'i gwallt yn wyn.*]

SARA [*cyn gynted ag y gwêl y drws yn agor, newid ei llais*] : A chofia di, paid â sôn yn y tafarn ei bod hi wedi cael ei B.A. nes y byddwn ni yn gwybod yn sicr.

Mrs. LLOYD : O ! Ifan, dydych chi ddim wedi bod yn gwneud hynny, ydych chi ?

IFAN : Nag ydw'n siŵr, meistres—dim ond Sara fel hen frân yn galw glaw ac yn gweld beiau lle nad oes beiau. Dydw i ddim wedi sôn am y peth.

Mrs. LLOYD : Fe fyddai'n gymaint o siom iddi petai'n digwydd methu.

IFAN : Methu ! Rwy'n fodlon mentro fy holl eiddo, gymaint ag yw e, na fetha hi ddim. Petaech chi wedi'i gweld . . .

SARA [*yn cymryd y geiriau o'i enau ac yn ei ddynewared*] : Rhifo defaid ac yn y blaen. Rydym ni'n gwybod y stori yna i gyd yn awr, ac wedi hen laru arni. [*Yn troi at ei meistres*]. A fydd hi wedi cael gwybod cyn dod adre ?

Mrs. LLOYD : Dwn i ddim. Doedd hi ddim wedi cael gwybod ddoe, beth bynnag.

SARA : Gobeithio y bydd hi, er mwyn iddi gael cysgu'n dawel heno. Fe af i i fynd i weld bod popeth yn barod yn ei hystafell.

Mrs. LLOYD : Does dim cisiau, Sara. Rwy wedi rhoi popeth yn ei le, popeth fel y mae hi'n leicio eu cael. Ble mae tadcu ? A welsoch chi e'n ddiweddar, Ifan ?

IFAN : Mae e wedi mynd i lawr i'r Waun Fawr i roi golwg ar y ddau lwdn sy'n pryfedu.

SARA : A pham na allit ti fynd yn ei le a pheidio â dod i mewn man hyn i wastraffu dy amser a phoeri ar y ffender ?

IFAN : Oni gynigiais i i fynd, fenyw, ac fe ddwedodd wrthyf am i fi feindio fy musnes fy hunan. Dwyt ti ddim yn disgwyl i mi gydio yng ngholer ei got a'u lusgo i'r tŷ, wyt ti ?

SARA : Ni ddylech chi ddim ei adael i gerdded cymaint, meistres. Rwy'n siŵr ei fod yn gwneud drwg iddo fe.

MRS. LLOYD : Beth gwell a fyddwn i i ddweud hynny wrtho ? Wrendy e ddim arna i.

SARA : Fe ddweda i wrtho ac yr wy'n siŵr y gwna i iddo fe wrando. Ni welais i erioed sut waith edrych ar ôl dynion—un yn eistedd yn y tŷ lle nad oes ei eisiau ac un arall yn mynd allan pan ddylai fod yn y tŷ . . .

IFAN : A thithau fel hen iâr glwc heb ddim cywion [*yn codi ac yn mynd at y drws Ch.*]. Rwy'n mynd i geisio ei gael i'r tŷ.

MRS. LLOYD : Ddylech chi ddim fod wedi ei anfon allan felna, Sara. Mae e fel crwt heno yn disgwyl Santa Clos.

SARA : Twt ! Wnaiff hi ddim drwg iddo fe gael cyffro.

MRS. LLOYD : Gobeithio y gwnaiff e siafio eto nos Sadwrn neu fe fydd golwg ar ei wyneb e cyn diwedd yr wythnos nesa.

[*Daw WILLIAM i mewn drwy'r drws Ch.—yn araf ar bwys ei sffon. Y mae'n cerdded yn syndod o heini ac ystyried ei oedran. Y fogfa yw ei elyn.*]

SARA [*cyn gynted ag y daw trwy'r drws*] : A ble'r ydych chi wedi bod ?

WILLIAM : Ble rydw i wedi bod ? [*Daw ymlaen ac eistedd yn y gadair ar yr aelwyd*]. Wedi bod yn gweld y

ddau lwdn yna sy'n pryfedu—mae arna i ofn bod un ohonyn nhw wedi mynd yn rhy bell i wella.

SARA : A pha eisiau oedd i chi fynd ? Fe wyddech bod Ifan wedi bod yn eu golwg wrth mofyn y gwartheg i odro, ac yr oedd yn rhaid i chi . . .

WILLIAM : Os na ofeli di am y tafod yna sydd gennyf, Sara, fe fyddi di'n cael mis o *notis*.

SARA : Beth gwell fyddech chi o wneud hynny ? Ymadawn i ddim. I ble'r awn i ?

WILLIAM : Ie, dyna gwestiwn. Chait ti neb y ffordd hyn i'th gymryd—neb sy'n dy nabod di beth bynnag.

SARA : Mae'n rhaid i rywun ddweud y drefn wrthyhych chi. Ddylech chi ddim mynd i lawr i'r Waun Fawr heno. Roeddech chi wedi cerdded eitha digon cyn hynny heddiw.

MRS. LLOYD : Mae'r hyn y mae Sara'n ei ddweud yn eitha gwir, tadcu. Rhaid i chi edrych ar ôl eich hunan.

WILLIAM : Mae'n galed i ddyn fyw yng nghanol haid o fenywod ! Ond diolch i'r nefoedd, fe ddaw Olwen adre heno—fe fydd yma un ar fy ochr i wedyn. Chewch chi ddim fy nhrin a fy nhrefod fel y mynnoch pan fydd hi yma. O daw, fe ddaw Olwen i ben â chi'ch dwy.

MRS. LLOYD : Ble mae hi a Dafydd cyhyd ? Fe ddylent fod yma ymhell cyn hyn.

SARA : Mae'n tynnu ymlaen at naw o'r gloch.

MRS. LLOYD : Gobeithio nad oes dim wedi digwydd iddyn nhw.

WILLIAM : Nac oes wrth gwrs. Beth allai ddigwydd ?

SARA : Fe fynnodd Dafydd fynd â'r cel melyn.

WILLIAM : Mae Dafydd yn ddigon o ddyn i drafod dau gel melyn.

MRS. LLOYD : Rwy wedi gofyn i chi werthu'r cel melyn yna—mae e'n fy atgoffa o'r ebol oedd gan ei dad pan gadd e'r anlwc.

WILLIAM : Edrychwch chi'r menywod ar ôl gwaith y tŷ ac fe edrychaf finnau a Dafydd ar ôl y ceffylau. Nid ar yr ebol yr oedd y bai. Roedd yntau fel Dafydd a minnau yn gwybod y ffordd i drin ceffylau.

MRS. LLOYD : Mae arna'i ofn bob tro rwy'n gweld Dafydd yn gwisgo'r cel melyn yn y trap.

WILLIAM : Dyna ddigon o fynd yn erbyn gofid. Y trê'n sy'n hwy'r. Fe fyddan yma yn y man. Ac Olwen gyda ni am ddeufis o leiaf. Fydd Olwen ddim yn cintach a gwenwyno byth a beunydd fel pawb arall yn y tŷ.

SARA : Na fydd ; fe'ch spwylia o fore tan nos ac fe'ch try rownd ei bys bach. Hi yw'r unig un all eich trafod yn rhwydd.

WILLIAM : Pe bait ti Sara wedi sylweddoli bod yna sawl ffordd i drafod dyn heblaw ei ddreifo fe, fe fuasit wedi cael gŵr ymhell cyn hyn.

SARA : Gŵr wir ! Fel petawn i ddim wedi cael digon o drafferth gyda gwŷr gwagedd eraill. [*Yn rhoi sliperau iddo.*] Dyna, gwisgwch y sliperau yma a thwymwch eich traed, neu fe ddaw'r fogfa'n waeth arnoch chi eto a welwch chi mo'r cynhaea gwair.

[*Clywir sŵn ceffyl ar y buarth.*]

MRS. LLOYD : Dyna nhw ar y buarth. [*Â allan.*]
WILLIAM *yn mynd i godi.*]

SARA [*wrth WILLIAM, ac yn mynd at y drws Ch.*] : Peidiwch â symud. Fe ddaw i mewn nawr. [*Allan.*]

[*Lleisiau tu allan ; gwên hyfryd ar wyneb WILLIAM.*]

OLWEN [*y tu allan*] : Wel, dyma fi.

MRS. LLOYD [*y tu allan*] : Ble buoch chi cyhyd ? Rydym yn disgwyl ers amser.

OLWEN [*y tu allan*] : Helo, Sara ! 'Rydych yn mynd i edrych yn ifancach bob dydd.

SARA [*y tu allan*] : 'Dwyt ti ddim yn edrych yn rhywbeth glew iawn dy hunan, beth bynnag. Darllen gormod o lyfrau, mac'n debyg.

OLWEN [*yn dod i mewn a'i mam y tu ôl iddi*] : Ble mae tadcu ? [*Yn ei weld.*] Helo, tadcu ! [*Rhed ato, gesyd ei breichiau am ei wddf ac eistedd ar fraich y gadair. Merch obygus, ysgafn ei hysbryd yw OLWEN, heb un rhith o'r hyn a elwir yn 'wynt' yn perthyn iddi.*]

WILLIAM : Ac fe gefaist dy ben yn rhydd gyda nhw o'r diwedd !

OLWEN : Fe ddeuais cyn gynted ag y gallwn i. Roeddwn i am fod adre erbyn y cynhaea gwair. Roedd Dafydd yn dweud eich bod yn mynd i dorri'r gwair hadau bore fory. [*Yn troi at ei mam.*] Gallaf fod o dipyn o help i mam yn y tŷ, beth bynnag.

MRS. LLOYD : Y peth gorau i ti fydd ceisio cael tipyn o liw yn ôl i'r bochau yna.

OLWEN : Rwyf fi'n eitha reit. Dim ond diwrnod neu ddau adre ac fe fyddaf cystal ag erioed.

WILLIAM : Rwyf ti yn falch i gael dod i dy hen gartre, on'd wyt ti ?

OLWEN : Balch ? Ydw. Chredwch chi ddim mor hyfryd oedd hi i ddod lan dros y banc heno y tu ôl i'r cel melyn. Wyddoch chi, tadcu, pan welodd y cel melyn fi'n dod allan o'r stesion, fe gododd ei glustiau a dyna fe'n dechrau gweryru—fe'm nabyddodd i ar unwaith. Dyna chi, tadcu.

[*Yn ystod yr uchod, y mae IFAN a SARA wedi dod i mewn, IFAN yn cludo dau fag ac yn eu rhoi i lawr ger y drws. Y mae lamp wedi ei goleuo gan SARA a gesyd hi ar y burdd.*]

WILLIAM : Chware teg i'r cel melyn, mae llawer o ddirfrio wedi bod arno fe yma heno.

IFAN [*wrth SARA*] : A wyt ti am i mi fynd â nhw lan i'r llofft ?

SARA : A dy sgidiau bryntion ! Fe af i â nhw i fyny. Mae'n well gen i hynny na glanhau'r grisiau fory ar ôl dy draed di.

OLWEN [*yn codi*] : Fe af fi â nhw, Sara.

SARA : Nac ei di ddim. [*Yn cydio mewn un bag a mynd ag ef at y drws D.*] Fe alla i gario'r rhain er gwaetha'r gwynegon.

OLWEN : A sut mae'r gwynegon, Sara ?

SARA [*yn rhoi'r bag i lawr ger y drws i draethu ar ei hoff bwnc*] : Mae 'nghoes dde i wedi gwella'n syndod a dyw'r un chwith dim yn ddrwg iawn yn awr. Ond yr un pryd ag y gwelodd fy nghoes dde, fe ddechreuodd fy ysgwydd chwith i wynegu. Nawr, petaen nhw wedi mynd o'r goes dde i'r ysgwydd dde, fy fyddwn yn gweld rhyw reswm yn y peth, ond i'r ysgwydd chwith yr aethon nhw, wel di, a wedyn . . .

[*Y mae MRS. LLOYD erbyn hyn wedi cydio yn y bag er mwyn mynd ag ef ei hun.*]

OLWEN : Gadewch iddo fe fod, mam . . .

SARA : Rwy i'n mynd â'r bag yna. [*Yn cydio yn y bag ac yn mynd ag ef allan.*] Fe ddof yn ôl yn y man i mofyn y llall.

OLWEN [*wrth IFAN*] : Sara sy'n handlo'r tŷ yma o hyd, rwy'n gweld.

IFAN : Mae ei thafod yn mynd o fore tan nos, Olwen fach—mae fel y gwynt a'r tonnau, byth yn blino.

WILLIAM : Mae'n burion peth iddi dy drafod di. Ond beth amdanaf fi, meistr y tŷ—mewn enw, beth bynnag ? Mae'n fy nhrin i fel rhyw grwt bach mewn ffrog a phais, ydy, na chyffrw i.

MRS. LLOYD : Mae'n beth eitha da bod rhywun yn gallu eich trin chi eich dau. Beth wyt ti'n mofyn i swper, Olwen ? Fe gafodd Dafydd ei un ef cyn mynd i'r stesion.

OLWEN : Dydw i'n mofyn fawr o ddim, mam. Dim ond cwpanaid o de.

MRS. LLOYD : Rhaid i ti gael rhywbeth, [SARA'n dod yn ôl i ymofyn y bag arall] wedi trafaelio'r holl ffordd.

OLWEN : Na, does dim eisiau dim arna i wir, mam.

SARA : Wrth gwrs bod eisiau arnat ti. Siarad rhyw ffolineb felna ! Fe ddof yn ôl nawr i wneud swper i ti. [*Â allan â'r bag arall.*]

WILLIAM : Wel, dyna'r cwbl wedi'i setlo i tithau hefyd.

[*Y mae IFAN wedi bod yn sefyll yn anesmwyth wrth y drws o hyd. Mae'n amlwg bod rhywbeth ar ei feddwl.*]

IFAN : Ydych chi'n B.A. eto, Olwen ?

OLWEN : Nac ydyw, Ifan, ddim eto.

IFAN : Dydych chi ddim wedi cael gwybod, mae'n debyg.

OLWEN : Na, ond rwy'n ofni mai ffaelu a wnaf.

WILLIAM : Pryd wyt ti'n disgwyl cael gwybod ?

OLWEN : Dwn i ddim yn iawn—ym mhen rhyw wythnos, mae'n debyg.

MRS. LLOYD : Wel, paid â gofidio yng nghylch y peth. Dyw'r byd ddim ar ben hyd yn oed os wyt ti wedi ffaelu.

[*Daw SARA yn ôl o'r Dde.*]

IFAN : Wna hi ddim ffaelu, meistres fach. Dim ond dychmygu'r gwaethaf y mae fel llawer un arall. A oedd e'n arholiad caled, Olwen ?

SARA [*yn aros ar ei ffordd i'r drws Ch.*] : Eisiau cael gwybod mae e, a orfu i ti rifo defaid yn yr arholiad. Mae e'n credu bod rhyw gredit i fod iddo fe pan gei di dy B.A.—fel petai rhifo defaid yn rhyw gamp glefer. Fe ddof i â swper i mewn i ti ar y trei nawr, ac fe fydd yn rhaid i ti ei fwyta. [*Allan i'r Ch.*]

IFAN : Mae yn drueni na chydiai'r gwynegon yn ei thafod hi.

MRS. LLOYD : Peidiwch â chymryd sylw ohoni, Ifan. Mae'n waeth heno nag arfer. Dyna'i ffordd hi o ddangos ei bod hi'n falch i weld Olwen adre eto.

SARA [*yn y gegin fach*] : Dwyt ti ddim i fynd â'th draed i mewn fel yna i'r gegin yn syth o'r stabal. Sych nhw ar unwaith.

DAFYDD [*yn y gegin fach*]: O'r gorau, Diana'r Ephesiaid! Dyna! A wnan nhw'r tro nawr?

WILLIAM: Pwy arall fuasai'n beiddio galw Diana'r Ephesiaid arni?

[*Daw DAFYDD i mewn yn gyflym gan gau'r drws ar ei ôl a'i ddal yng nghau o'r tu mewn. Bachgen tua 25 oed yw.*]

DAFYDD [*yn dangos teisen yn ei law*]: Mae Sara yn ei hwyliau gorau heno ond fe es i â hon o dan ei thrwyn hi. [*Yn bwyta.*]

MRS. LLOYD: Roedd y cacennau yna wedi'u gwneud yn special erbyn y daethai Olwen adre.

DAFYDD: Dyw hynny run rheswm pam y dylai hi eu cael i gyd.

OLWEN: Chware teg i Sara. Rhaid i mi wneud fy ngorau i'w bwyta, hyd yn oed os caf i ddiodef wedyn.

DAFYDD: Dydyn nhw ddim yn ddrwg o gwbl—chware teg iddi!

WILLIAM [*wrth DAFYDD*]: A aethost ti â'r ebol allan i'r cae?

DAFYDD: Naddo, mac'n well iddo gael oeri rhagor yng nghynta.

[*SARA yn dod i mewn yn cludo trei â bwyd arni.*]

SARA: Nawr te, Olwen, dyma dy swper di. [*Yn ei roi ar y bwrdd.*] A dim rhyw esgus o fwyta chwaith.

DAFYDD: Bwyta rhywbeth tebyg i'r fel yr ydw i'n bwyta, on'd te, Sara?

SARA: Ie, petai'n cael hanner dy archwaeth di, fe roddem ni bwysau lawer arni cyn pen mis.

OLWEN [*wrth gerdded at gefn y bwrdd, yn gweld y lleuad drwy'r ffenestr.*]: W! Dacw'r lleuad newydd!

SARA: Ai dyma'r tro cynta i ti ei gweld hi?

OLWEN: Ie.

SARA: Wele'r holl ogoniant! A oes dim digon yn dy ben di a thithau wedi bod am flynyddoedd yn y coleg i beidio ag edrych ar leuad newydd drwy'r

ffenestr a thithau'n disgwyl gwybod a wyt wedi pasio neu beidio?

DAFYDD: Beth yw'r gwahaniaeth, Sara fach?

SARA: Beth yw'r gwahaniaeth, wir! Rydw i wedi gweld tipyn yn fwy o'r hen fyd yma na thi, a ni chafodd neb erioed lwc ar ôl gweld lleuad newydd trwy wydr ffenestr.

OLWEN: Ond allwn i ddim help ei gweld hi, Sara.

SARA: Wrth gwrs y gallit. Beth oeddit ti'n peidio â chau dy lygaid?

MRS. LLOYD: Twt, twt! Mae'r peth wedi ei wneud nawr . . .

SARA: Ydy, a fe gewch chi weld na ddaw dim lwc i Olwen yn ystod y lleuad hon. Dere i gael dy swper—wna hwnnw ddim drwg i ti beth bynnag. [*OLWEN yn eistedd.* SARA yn arllwys te ac yn gweini arni yn gyffredinol.]

DAFYDD [*wrth IFAN*]: Mae'n rhaid bod Sara'n gweld pob lleuad newydd drwy'r ffenestr neu fe fyddai wedi cael gwared ar ei gwynegon erbyn hyn.

IFAN: Rhaid i ni fynd â hi allan i weld y lleuad nesa?

SARA: Ie, chwerddwch chi. Fe ddoi di Dafydd yn gallach rwy ddiwrnod efallai, ond fe fydd Ifan yn babanu cyn caiff e synnwyr.

WILLIAM: Rho lonydd iddyn nhw nawr am dipyn, Sara. Dwed wrthw i, Olwen, beth wyt ti'n olygu ei wneud y flwyddyn nesa? Mynd nôl i'r coleg?

OLWEN: Na wna i ddim o hynny os gwna i basio.

DAFYDD [*yn dwyn teisen o'r trei ar waethaf SARA*]: Dwyt ti ddim yn mynd i basio. Oni welaist ti'r lleuad trwy'r ffenestr, a dyna ddiwedd ar y syniad o gael B.A. ar ôl dy enw bach di eleni, onid e, Sara?

SARA: Os oes eisiau bwyd arnat ti, y mae yna ddigon yn y llaethdy.

DAFYDD: Na, rwy'n gwneud yn ardderchog, Sara, diolch yn fawr.

MRS. LLOYD : Beth wyt ti'n feddwl ei wneud, ynteu, Olwen ?

OLWEN : O, chwilio am waith.

WILLIAM : Pa fath o waith ?

OLWEN : Rhywbeth y caf fi gynnig arno—mae pob gwaith ddigon prin y dyddiau yma.

WILLIAM : Pam na arhosi di adre yn gwmmi i dy dadcu ? Rhywun i'w amddiffyn rhag Sara a dy fam ?

OLWEN : A faint fydd y gyflog, tadcu ?

WILLIAM : Fe gytunwn i ar y gyflog wedyn.

IFAN : Cofiwch chi, mistir, mae B.A.s yn cael cyflogau da.

SARA : Hy ! Beth gwell fyddwch chi o siarad felna. Fe fydd rhywun wedi'i dwyn o'r aelwyd yma yn gloi iawn. Ac er ei holl addysg, gwneud gwaith tŷ am ddim i ryw ddyn diarth y bydd hi. Mae yna lawer un wedi bod ar ei hól hi'n barod, os ydw i'n nabod y stiwdents yna.

WILLIAM : Oes e, Olwen ?

OLWEN : Wel, rwy'n nabod sawl bachgen neis yn y coleg.

SARA : Ie, dyna hi, ac fe fydd dy B.A. yn lot o help i ti wrth olchi'r llestri a sgubo'r llawr, oni fydd ?

DAFYDD [*yn dwyn teisen arall*] : A gwneud teisennau, Sara.

SARA : Aros di, mei lord. Fe setla i â thi am hyn eto. Nawr, Olwen fach, dwyt ti'n bwyta'r nesa peth i ddim.

OLWEN : Rwyf wedi bwyta mwy nag a wnes ers wythnosau, Sara.

SARA : Dydy hi naws rhyfedd, ynte, dy fod wedi colli dy liw. Nawr, treia'r teisennau yma cyn i Dafydd ei dwyn i gyd. A chwpanaid o de eto.

[*Dyma sefyllfaoedd y chwaraewyr yn awr* : WILLIAM *ar y Ch. yn eistedd yn y gadair* ; IFAN *yn eistedd ychydig y tu ôl iddo* ; SARA *yn sefyll rhyngddynt a'r burdd* ; MRS.

LLOYD *yn eistedd ar y Dde, a DAFYDD yn cerdded a sefyll bob yn ail ar y Dde.*]

Clywir cnoc ar ddrws y gegin fach ac yna lais JONATHAN HUMPHREYS *y tuallan.*]

JONATHAN : Ydy'r bobol i mewn yma ? [*Daw i'r golwg yn y drws Ch. Y mae stwyddyn neu ddyw yn hŷn na Mrs. LLOYD.*] Diail erioed, mae Olwen adre ?

OLWEN [*yn codi a rhedeg ato a siglo ei law*] : Helo, nwcwcl, a oes eisiau help arnoch at y gwair.

JONATHAN : Dere di draw i'r Lluest, fe gei di ddigon o waith.

[*IFAN yn codi a mynd allan.*]

WILLIAM : Rhy ddiweddar, Jonathan, rydw i wedi ei chyfflogi.

SARA : Dere di nôl at dy swper, neu fyddi di fawr o les i neb wrth y cynhaea gwair.

WILLIAM : Eistedd, fachgen.

JONATHAN : Na wel, dod yma wnes i . . .

IFAN [*daw i mewn yn frysiog ac y mae'n amlwg bod rhywbeth wedi ei gynhyrfu*] : Dafydd, mae Morgan Rhyd-yfran wrth ddrws y cefn.

WILLIAM [*cyn i DAFYDD ddweud gair. Y mae pawb yn ymsythu ac y mae geiriau IFAN fel cysgod cwmwl ar ôl heulwen*] : Beth ddwedaist ti ?

[*DAFYDD yn mynd at y drws. JONATHAN yn ei rwystro.*]

JONATHAN : Aros, Dafydd.

DAFYDD : Aros ? Ac ysglodyn y diafol yna wrth y drws ?

JONATHAN : Aros. Fi ddaeth ag ef yma.

DAFYDD } [*gyda'i*] { Chi ! Chi ddaeth ag ef yma !

WILLIAM } [*gilydd*] { Beth andras wyt ti'n feddwl.

JONATHAN : Fe ddeuthum ag ef yma gyda phwrpas . . .

WILLIAM [*yn codi ei lais*] : Ti wyddost yn iawn na chaiff yr un o'r giwed yna ddod yn agos i'r tŷ hwn tra bo anadl ynof fi.

DAFYDD [*yn ceisio mynd at y drws eithr rhwystra* JONATHAN *ef*] : Ble mae e, Ifan ?

JONATHAN : Arhoswch funud eich dau . . .

DAFYDD : Does dim amser i aros . . .

JONATHAN : I mi gael egluro . . .

[MORGAN yn ymddangos yn sydyn yn y drws Ch., ac yn torri ar draws JONATHAN. (*Bachgen cryf wedi'i wisgo'n wledig yw MORGAN*). *Nid oes un o'r lleill yn symud tra bydd ef yn siarad ac y maent yn llygaid i gyd. Y mae ymddangosiad MORGAN yn y tŷ hwn fel pe wedi'u syfrdanu.*]

MORGAN [*mewn llais cryf, ond nid yw yn gweiddi*] : Does eisiau i chi egluro dim, Jonathan. Mi wyddwn i mai fel hyn y byddai hi. Fe ddwedais i wrthych chi sut croeso a gawn.

DAFYDD [*yn symud at MORGAN yn fgythiol ond y mae OLWEN yn rhedeg i sefyll rhyngddynt, ac y mae JONATHAN yn ei helpu i wthio DAFYDD yn ôl*] : Dyma'r croeso . . .

MRS. LLOYD : Dafydd ! [*yn hanmer sgrechain*].

OLWEN : Dafydd, er fy mwyn i !

WILLIAM : Does dim un o'r Morgansiaid wedi croesi trothwy'r tŷ yma yn fy nghof i, ac os mai ti Jonathan a ddaeth â hwn yma heno, cerdd ag ef ymaith cyn ei bod yn rhy ddiweddar.

JONATHAN : Ond William, mae'n rhaid i chi wrando arna i. Mae 'ngwartheg i'n dioddef.

MORGAN : Ni fyddwch chi damaid gwell, Jonathan. Ni wnaeth un o'r Llwydiaid erioed feddwl am neb ond am dano ei hunan.

[DAFYDD yn ceisio ei ryddhau ei hun, ond y mae breichiau

OLWEN yn dynn amdano. WILLIAM yn symud at MORGAN yn fgythiol.]

SARA [*yn beiddio rhoi ei phig i mewn ac yn sefyll rhwng WILLIAM a MORGAN*] : Eisteddwch i lawr, meistr, a pheidiwch â chynhyrfu eich hunan.

WILLIAM [*yn siarad â SARA mewn tŷn hollol wahanol i'w arfer*] : Sara, dydy hyn ddim busnes i ti. Gad di rhyngof fi a'r dieflyn hwn.

JONATHAN [*yn siarad yn gyflym*] : Ond paham y mae'n rhaid i 'ngwartheg i ddioddef oherwydd eich cynnen chi? Does yr un diferyn o ddŵr gen i ar y tir oddi ar i chi gronni'r nant ar y mynydd.

WILLIAM : Ar ein mynydd ni y mae rhaniad y dŵr ac y mae gen i hawl i wneud fel y mynnwyf â'r dŵr.

JONATHAN : Ond alla i mo'r help fod y nant yn rhedeg drwy dir y Morgansiaid, William bach.

WILLIAM : Alla innau mo'r help chwaith. Ond does yr un diferyn o ddŵr yn mynd i redeg drwy eu tir nhw o'n mynydd ni, tra bo'r dŵr yn ddigon bach i mi ei gronni.

JONATHAN : Gorfod i mi gerdded ein gwartheg a'r da blwyddi i'r rhyd ddwywaith i gael dŵr heddiw, William. A dyna'r paham y deuthum i â Morgan yma heno. Da chi, William, peidiwch â gadael i'r hen gynnen yna ddistrywio fy stoc i. Fe allwn ddod i ryw fath o gytundeb.

WILLIAM : Mae cytundeb rhyngof fi a'r Morgansiaid yn beth mor amhosibl a chael barcud a chigfran i siaro'r un nyth.

MORGAN : Rwy'n mynd, Jonathan. Ni fuaswn wedi dod yma onibai am eich stoc chi, a chyn plyga i o flaen y Llwydiaid eto, fe fydd pob anifail sydd gennyf wedi trengi o syched. Deuthum yma yn barod i gladdu'r hen gynnen, ond os nad ydynt hwy am wneud hynny,—yna, cuwch cwd â ffetan. [*Allan yn gyflym i'r Ch.*]

[*Ennyd o dawelwch.*]

OLWEN [*yn mynd at ei thadcu; yntau yn ail-eistedd*] : Tadcu, dydych chi ddim yn mynd i ollwng anifeiliaid nwnawl Jonathan i drigo o syched, ydych chi?

WILLIAM [*yn gwneud dim sylw ohoni*] : Dafydd, cerdd allan i weld ei fod wedi mynd i'r hewl. [DAFYDD yn mynd. *Anneidia MRS. LLOYD ar IFAN i'w ddilyn. Hwnnw yn mynd.*]

OLWEN : Does gennych chi ddim hawl i wneud hynny. tadc. Mae'r dŵr iddyn nhw run fath ag i ni.

WILLIAM : Olwen, fe wyddost yn iawn beth y mae'r teulu yna wedi'i wneud i ni, ac os gwnaiff y tywydd sych yma barhau, fe rwystra i bob diferyn o ddŵr i fynd i Rydyfran.

JONATHAN : Ond rwyf innau hefyd yn gorfod dioddef—os na chân nhw ddŵr, chaf finnau ddim.

WILLIAM : Mae'n ddrwg gen i am hynny.

OLWEN : Gwnewch er mwyn nwnawl. Anghofiwch y gynnen—mae'n hen nawr. Dydych chi ddim am achosi dioddefaint. Ni fyddwch chi ddim gwell.

WILLIAM : Rydw i wedi dweud unwaith fod yn ddrwg gen i am hynny ac yr wyf yn fodlon torri bwlch iddo fe gael dod â'i dda i'r nant yn ein gwaun isaf ni. Ond ni chaiff y gethefn yna yr un diferyn os galla i eu rhwystro.

OLWEN [*yn mynd yn ôl at ei mam yr hon sy'n eistedd yr ochr arall i'r burdd*] : Mam, dwedwch rywbeth wrtho. Fe wrendy arnoch chi.

MRS. LLOYD : Wrendy e ddim ar neb, Olwen fach. Rydw i wedi byw yma'n ddigon hir erbyn hyn i sylweddoli hynny.

SARA : Creaduriaid cas yw'r Morgansiaid yna . . .

MRS. LLOYD : Sara !

SARA : O, o'r gorau, dyw e ddim i mi. [*Mynd â'r trei allan i'r Ch.*]

[*Ennyd o dawelwch.*]

MRS. LLOYD : Fe ddylit fod yn gwybod gwell na dod ag ef yma heno, Jonathan.

JONATHAN : Roeddwn i'n meddwl popeth o'r gorau. Ei frawd Alun gafodd berswad arno. [*OLWEN yn troi ato ac yn mynd i siarad ond yn feidio.*] Daeth Alun adre o Lundain ddoe. Roeddwn i ac yntau yn meddwl y byddech yn barod i ddod i ryw gytundeb petai Morgan yn dangos parodrydd.

WILLIAM : Does dim cytundeb i fod tra bo'r un ohonyn nhw yn Rhydyfran. P'un yw Alun, y doctor yna ?

JONATHAN : Ie, fe oedd yn meddwl bod rhyw obaith claddu'r gynnen.

[*DAFYDD yn dod i mewn o'r Ch. yn wyllt.*]

DAFYDD : Wyddoch chi beth wnaeth e ? Fe gerddodd adre drwy ganol y gwair hadau gan adael y bwlch yn agored, ac onibai i Ifan a minnau redeg i lawr ar unwaith, buasai'r da blwyddi i gyd yn yr hadau.

WILLIAM : Beth wnaethost ti ?

DAFYDD : Doedd dim i'w wneud. Roedd e ymhen draw'r cae pan welais i e.

WILLIAM : Dyna sut ddynion yw'r Morgansiaid, Jonathan. A chofia, Dafydd, cadw olwg ar y gron yna ar y mynydd. Mae'r gethern yna'n sicr o dreio ei thorri i gael dŵr i lawr drwy eu tir nhw. Does dim diferyn i fynd, ar dy fywyd ! Mae Morgan a'i frodry yn ddigon melltigedig i unrhyw beth ac y mae'r doctor yna adre gyda nhw nawr, ond does dim ildio i fod. Ac os cawn ni ddeufis sych eto fe fydd yn rhaid i'r Morgansiaid i chwilio am fferm arall. Ac y mae gen i ergyd arall yn barod iddyn nhw hefyd.

DAFYDD : Beth yw hwnnw ?

WILLIAM : Fe gewch chi wybod pan ddaw'r amser. Mae Rhagluniaeth wedi eu rhoi yn fy nwylo o'r diwedd, a does dim trugaredd i fod. Rydw i wedi bod yn disgwyl deugain mlynedd am y cyfle hwn.

OLWEN : A minnau'n dod adre mor hapus heno. [*Wrth JONATHAN*] Mae'n ddrwg gen i, nwnawl.

MRS. LLOYD : Cerdd nawr, Jonathan. Fe gei di weld Olwen fory. Rhaid i ni fynd i'r gwely gan fod Dafydd ac Ifan yn torri'r hadau fory.

JONATHAN : Ie, gwell i mi fynd.

WILLIAM : Os cawn ni amser fory, fe gaiff Ifan ddod i dorri bwlch yng nghlawdd y Waun Isa.

JONATHAN : Fe fyddai'n well gen i . . . [MRS. LLOYD yn gwneud arwydd arno.] O'r gorau. Nos da. [MRS. LLOYD yn mynd gydag ef.]

PAWB DRWYDDI DRAW : Nos da. [DAFYDD yn mynd ar ei hól.]

OLWEN : Mae'n well i chi fynd, tadcu. Fe ddown i gyd yn y man.

SARA [yn dod i mewn] : Dyma'ch kannwyll chi. [IFAN yn dod i mewn â channwyll olau.]. Pa amser wyf i alw y pwdryn yma bore fory?

IFAN : Fe ddihuna i heb dy glochdar di.

WILLIAM : Rhaid i ti a Dafydd godi'n weddol fore Ifan.

SARA : Fe'i dihunaf nhw am bump. A phaid ti â mynd yn ôl i ail-gysgu chwaith.

IFAN : Fe fydda i yn y cae gwair pan fyddi di'n breuddwydio. Nos da.

OLWEN : Nos da, Ifan. [OLWEN i lawr ger y tân.]

WILLIAM : Fe af innau hefyd a dewch i gyd. [Allan].

SARA : Mae dy fagiâu yn dy ystafell Olwen. Wyt ti am i mi dynnu rhywbeth allan?

OLWEN : Na, does dim eisiau dadbacio dim heno.

SARA : O'r gorau. Fe af er mwyn diuno'n weddol yn y bore, a chofiwch gloi drws y cefn ar ôl i Dafydd ddod i mewn.

OLWEN : Nos da. [Â MRS. LLOYD allan. OLWEN yn mofyn ei bag llaw ; tynn ohono fwndel o luniau a bocs dybaco crand iawn. DAFYDD i mewn.]

DAFYDD : Ydy pawb wedi mynd i'r gwely? Beth sy gen ti fanna?

OLWEN : Bocs dybaco i Ifan a llun y coleg arno. Rwy am ei roi ym mhoced ei got wedi iddo gysgu.

DAFYDD : Cheidw e ddim dybaco yn hwnna. Mae e'n rhy grand.

OLWEN : Fe wna i iddo ei iwsio.

DAFYDD [yn edrych ar y lluniau] : Dyma'r ferch oedd gennyf ti yn y tren heno, onid e?

OLWEN : Ie. Roedd hi'n ofni mynd adre'n ofnadwy. Cafodd wybod cyn gadael ei bod wedi ffaelu ei Lladin. Mae'n byw yng Nghwmeion ac yr oedd ei thad yn disgwyl iddi wneud yn dda. Diolch i'r nefoedd, ni fydd neb yn gwgu yma os metha i.

DAFYDD : Ifan gaiff fwyaf o siom. Fe dorrai ei galon, rwy'n credu [yn ystod yr uchod y mae'n troi'r lluniau o hyd].

OLWEN : Rwy'n credu y byddai tadcu yn falch er mwyn fy nghadw adre.

DAFYDD [yn sydyn] : Alun Rhydyfran yw hwn?

OLWEN : Ie.

DAFYDD : Roeddwn i'n meddwl ei fod wedi gadael y coleg ers tro.

OLWEN : Ydy. Mae e yn Llundain nawr. Hen lun yw hwnna.

DAFYDD : Beth mae e'n wneud yn yr un llun â thi?

OLWEN : Llun picnic y Gymdeithas Gymraeg yw e.

DAFYDD : Peth rhyfedd gweld wyneb un o'r tylwyth yna yn yr un llun â thi.

OLWEN : Wel, dallai'r un ohonom sefyll allan oherwydd nad oedd ein teuluoedd yn siarad â'i gilydd.

DAFYDD : Na, ond dydy hi ddim yn iawn i feddwl amdanat ti yn yr un llun ag ef. Llosga'r llun hwn cyn i neb arall ei weld.

OLWEN : Ei losgi e? Ond pam?

DAFYDD : Dydw i ddim am feddwl fod llun yr un ohonynt yn y tŷ hwn.

OLWEN : Rwyf ti wedi mynd yn waeth na tadcu, Dafydd. Does gan Alun ddim mwy i'w wneud â'r gynnen na mi.

DAFYDD : Na, ond un ohonyn nhw yw e. A ddeuaist ti i gyffyrddiad ag ef yn y coleg?

OLWEN : Do, ryw ychydig.

DAFYDD : A fuost ti'n siarad ag ef?

OLWEN : Y . . . do . . . dallwn i ddim peidio yn dda iawn. Roeddwn yn cwrdd ag ef mewn cwmni. Fe fuasai'n beth rhyfedd iawn i mi ddweud nad oeddwn i ddim i siarad ag ef oherwydd bod ein teuluoedd ddim yn siarad â'i gilydd.

DAFYDD : Wel, mae e'n ddigon pell nawr, a diolch am hynny.

[MRS. LLOYD yn dod o'r Ch., a chanhwyllbren yn ei llaw.]

MRS. LLOYD : Dewch i'r gwely eich dau. Dyma'ch canhwyllau chi. A pheidiwch â chadw sŵn a dihunio'r lleill.

OLWEN : Rwy'n credu yr af fi allan am dro byr cyn mynd i'r gwely.

MRS. LLOYD : Mynd am dro nawr ? I ble ?

OLWEN : O, dim ond lawr yr hewl i fwynhau sŵn y gwddihw a'r sgrech wair.

DAFYDD : Fe wn i beth, mam. Wyddoch chi'r gyfrinach ? Mae hi fel merched y colegau a'r trefydd yn dilyn y ffasiwn—wedi dysgu smocio. Eisiau mynd allan i gael smôc dawel . . . [OLWEN yn gwenu].

MRS. LLOYD : Olwen, dydy Dafydd . . .

OLWEN : Nac ydy, wrth gwrs. Dydych chi ddim mor ddwl â chredu'r celwyddgi hwn ?

MRS. LLOYD : Ond ei di ddim allan yr amser hyn !

DAFYDD : Fe af fi gyda hi. Mae'n rhaid i mi fynd i ollwng y cel melyn allan i'r cae cyn mynd i'r gwely. [Yn codi. Mae OLWEN yn amlwg wedi cael siom.]

OLWEN : Na, wedi meddwl, gwtrando ar mam sydd orau.

DAFYDD : O, rwy'n gweld. Dydy mynd am dro gyda'i brawd ddim yn ddigon da i mei ladi, wedi bod allan ddigon aml mae'n debyg gyda rhyw sprat o'r coleg.

[OLWEN yn rhoi ei thafod allan gyferbyn ag ef.]

Eisiau mynd allan i edrych ar y lleuad a breuddwydio am y corgi hwnnw, pwy bynnag oedd e. A dyngaist ti lw y buasit yn meddwl amdano bob nos cyn mynd i'r gwely ?

[OLWEN yn cydio mewn clustog neu rywbeth tebyg a'i dasflu ato. Yntau yn ei ddal ac yn ei dasflu'n ôl ac yna â allan drwy'r drws.]

MRS. LLOYD : Dere, Olwen. Bydd Dafydd yn gorfod codi'n fore i ladd yr hadau. Fe fuasai yn ei wely ers tro onibai amdanat ti.

OLWEN : Dalla i ddim meddwl am fynd i gysgu rywsut. Fe fydda'n meddwl o hyd am y cweryl yna, gynnau fach. Mae'r cwbl wedi codi rhyw arswyd arna i.

MRS. LLOYD : Does dim eisiau i ti ofidio am y peth. Mae dy fyd di'n ddigon pell oddi yma, ac ni ddeui i gysylltiad a'r gynnen ond yn awr ac yn y man. Beth pebait yn byw yn ei chanol o hyd—ers pum mlynedd ar hugain—heb wybod pryd y mae'n mynd i dorri maes, yn disgwyl ac yn ofni o hyd ?

OLWEN : Ond mae'n rhaid ei bod yn bosibl gwneud rhywbeth, mam. Mae diwedd i bopeth.

MRS. LLOYD : Ni fuasit yn dweud hynny pebait wedi bod yn disgwyl am y diwedd cyhyd ag yr wyf fi wedi bod yn disgwyl.

OLWEN : Ond dyw tadcu a Dafydd ddim am gadw'r peth yn fyw ?

MRS. LLOYD : Does neb am gadw'r peth yn fyw ond y mae yn byw ar waethaf pawb, ac fe fydd byw ar dy waethaf di a minnau.

OLWEN : A allan nhw ddim sylweddoli . . . a all pobl Rhydyfran ddim sylweddoli y gellir gorffen y cwbl ?

MRS. LLOYD : Ni fu dyn ffeinach ar y ddaear erioed na tadcu ar wahan i'r gynnen hon. Fe wna gymwynas i bawb ac yn falch i gael y cyffe. Ac y mae Dafydd run fath ag yntau. Ond fel hyn y bydd hi, un genhedlaeth ar ôl y llall—cweryl ar ôl cweryl, hyd nes y diflanna un tylwyth yn gyfangwbl. Does dim esboniad ar gynnen i'w gael—mae'n bod a dyna i gyd.

OLWEN : Beth mae'r cymdogion yn ei ddweud ?
A ydyn nhw ddim yn meddwl am y peth ?

MRS. LLOYD : Mae'r cymdogion fel finnau wedi byw
yn ei chanol cyhyd fel ag i gynefino â hi.

OLWEN : Ust ! [*Gwrendy.*] Mae rhywbeth yn dig-
wydd ar y clos. [*Cyfyd ac y mae'n mynd at y drws Ch. Y
mae ei mam yn ei hatal.*]

MRS. LLOYD : Aros. Paid di â mynd allan. Fe af fi.
[*Mynd at y drws.*]

OLWEN : Rwy'n dod gyda chi.

MRS. LLOYD : Aros di yma. [*Erbyn hyn clywir lleisiau
yn y gegin gefn.*] Dafydd, beth sy'n bod ?

[*Daw ALUN i mewn yn cael ei ddilyn gan DAFYDD.
Bachgen ifanc wedi'i wisgo fel myfyriwr yw ALUN.*]

DAFYDD [*cyn dod i'r golwg*] : Welwch chi beth ddaliais
i yn yr ydian ?

[*Y mae ALUN ar y cystle cyntaf a gaiff yn rhoi ei fys ar ei
wefus neu ryw arwydd arall i OLWEN beidio â siarad.*]

DAFYDD : Os oedd e'n gallu actio fel gŵr bonheddig
yn y coleg, Olwen, mae e'n tynnu at ei dylwyth ar
unwaith pan ddaw e adre. Llechu yn yr ydian i'n
gwyllo yn mynd i'r gwely—ni wyddom pa gynllwyn
oedd yn ei feddwl i wneuthur wedyn. Mynd i dorri'r
gron, mae'n debyg.

ALUN : Rwy'n tyngu ar fy ngwir . . .

DAFYDD : Os wyt ti'n credu fy mod i'n mynd i goelio
gair o ben un o Forgansiaid Rhydyfran, rwy't yn cam-
gymeryd yn fawr. Os nad oeddit ti'n cynllwynio rhyw
anfadaith, pa fusnes oedd genny't yn agos i'n ydian ni ?

OLWEN : Dafydd, gwranddo arna i . . .

ALUN [*ar ei thraws*] : Dod i chwilio am Morgan yr
oeddwn.

DAFYDD : Chwilio amdano yn yr ydian ? Na, rhaid
i ti gael gwell stori na honna.

ALUN : Ond rwy'n dweud y gwir. Mynd i mewn i'r
ydian a wnes i pan glywais i rywun ar y clos. Doeddwn
i ddim am i neb fy ngweld.

DAFYDD : Na, mae hynny'n ddigon tebyg o fod yn wir.
Roeddit yn meddwl bod Morgan wedi cael rhyw groeso
cynnes iawn yma heno.

ALUN : Roeddwn i'n dechrau . . .

DAFYDD : Cynhesach nag yr wyt ti'n gael er enghraifft.

OLWEN : Dafydd, a wnei di wrando arna i . . .

ALUN [*ar ei thraws eto*] : Rwy'n gwybod nad yw
pethau'n wastad rhyngoch chi yma a ninnau . . .

DAFYDD : Pethau ddim yn wastad ! Yr hyn yr ydw
i am gael gwybod yw, i beth yr oeddit ti'n ein gwyllo
ni'n mynd i'r gwely ?

ALUN : Rydw i wedi dweud unwaith ac yr ydw i'n
dweud y gwir, coeliwch fi neu beidio.

WILLIAM [*o'r lofft*] : Dafydd.

MRS. LLOYD : Ust ! Dyna tadcu. [*Clywir llais
WILLIAM ar dop y grisiau.*]

WILLIAM : Dafydd ! Beth sy'n bod ? Pwy sydd
yna ?

MRS. LLOYD [*yn amneidio ar DAFYDD i dewi ; yna'n
mynd at y drws D. a'i agor.*] : Does neb yma. Ewch yn
ôl i'ch gwely. Rydym ni'n dod nawr.

WILLIAM : Beth gwell ydw i o fynd i'r gwely a'r holl
sŵn i lawr yna ?

MRS. LLOYD : O'r gorau. Fe ddeuwn yn awr. [*Yn
cau'r drws ac yn dod nôl.*] Dyna ddigon nawr, Dafydd.
Gad i'r bachgen fynd.

DAFYDD : I fynd ! I fynd a minnau wedi ei ddal
yn yr ydian . . .

MRS. LLOYD : Ewch adre yn syth ac er mwyn popeth
cedwch ymhell o'r lle yma eto.

DAFYDD : Ie, dyna fydd orau iddo. Os gwela i di'n
agos i'r ydian eto . . .

MRS. LLOYD : Dyna ddigon, Dafydd. [*Wrth ALUN
Ewch ar unwaith.*]

[*Dylai OLWEN fod rhwng DAFYDD ac ALUN yn awr, ac os yw'n bosibl iddynt wneud hymny heb i DAFYDD a MRS. LLOYD ei gweld, cydiant yn nwylo'i gilydd am hanner eiliad cyn i ALUN fynd.*]

ALUN : Diolch, Mrs. Lloyd. Nos da [*Â allan*].

[*DAFYDD yn ceisio mynd at y drws ond y mae OLWEN rhyngddo.*]

DAFYDD : Mi af ar ei ôl i'w weld o'n tir beth bynnag.
OLWEN : Nac ei di ddim, Dafydd.

DAFYDD : Wyt ti'n meddwl fy mod i'n mynd i adael un o'r set yna i grwydro'n rhydd ar hyd y fferm heb geisio cadw llygad arno?

OLWEN : Fedri di ddim sylweddoli nad oes a fynno Al . . . y bachgen yna ddim a'r gynnen?

DAFYDD : Mae e wedi bod yn y Coleg ac wedi dysgu'r ffordd i siarad yn boleit yno, ond yr un yw e yn y gwraidd â phob un o'i frodyr. Dyw cwpl o flynyddau mewn coleg ddim yn mynd i'w newid.

OLWEN : Ond dwyt tithau ddim yn wahanol i'r un ohonyn nhw. Wrth ymwneud fel y maen nhw yn ei wneud, rwyf yn dy roi dy hunan ar yr un lefel yn hollol.

DAFYDD [*yn rhoi ei ddwylo ar ei hysgwydd ac yn araf ac heb fod yn drwsogl, symud hi o'r ffordd.*] : Dwyt ti ddim yn y fusnes hon, Olwen. Cadw allan ohoni. Peidiwch â dwed wrth tadcu fy mod i allan. [*Â allan i'r Ch.*]

OLWEN : Rwy'n mynd ar ei ôl.

MRS. LLOYD : Na, fyddi di ddim gwell. Gorau i gyd i ti po gyntaf y sylweddoli di na elli di wneud dim lles.

[*Llais WILLIAM o'r llofft.*]

WILLIAM : A ydych chi ddim yn golygu dod i'r gwely heno?

MRS. LLOYD [*yn mynd at y drws a'i agor*] : Rydym yn dod, tadcu.

[*Daw yn ôl. Y mae'n cynnau'r canhwyllau, gan adael un i Dafydd.*]

OLWEN : Ewch chi. Rwy'n mynd i aros nes y daw Dafydd yn ôl. [*Eistedd ger y bwrdd.*]

MRS. LLOYD [*ar ôl edrych arni am ennyd*] : O'r gorau. Nos da. [*Allan i'r Dd.*]

OLWEN : Nos da.

[*Erys OLWEN am ychydig ar ôl i'w mam fynd o'r golwg. Yna cydia mewn cap ac â allan drwy'r drws i'r Ch. Pan fo yn diflannu gwelir ei mam yn sefyll yn y drws D. ac yn edrych arni yn mynd, ac yna disgyn y Llen.*]

ACT II

[*Yr un olygfa prynhawn ail-trannoeth. Y mae'r teulu yn paratoi i fynd allan at y gwair. Pan gyfyd y llen y mae WILLIAM yn eistedd yn ei gadair a golwg flinedig iawn arno. Daw OLWEN i mewn o'r Ch.*]

OLWEN [*wrth ddod drwy'r drws*] : Nawr te, mei lord, rydych yn gwybod ble rydych chi i fynd y pnawn yma.

WILLIAM : Dydw i ddim yn mynd a dyna ddigon.

OLWEN : Nawr, nawr . . .

WILLIAM : Mynd i'r gwely, wir, fel rhyw blentyn wedi cael ei ddal yn gwneud drygioni . . .

OLWEN : Petaech chithau'n bihafio ni fyddai'n rhaid i chi fynd yno.

WILLIAM : Ond roedd yn rhaid i rywun fynd i fyny i'r mynydd heddiw.

OLWEN : Fe allai Ifan fod wedi mynd yn burion.

WILLIAM : Ifan wir ! Beth allai Ifan wneud petai e'n gweld y set yna'n torri'r gron. Mae ar Ifan ofn ei gysgod.

OLWEN : Doedd gennych chi ddim busnes i fynd, beth bynnag, a chreu arswyd arnom ni i gyd wedi dod yn ôl. Beth petaech chi wedi cael y lwgfa yna ar y mynydd a neb yn agos atoch ? Lwc i chi eich bod wedi cyrraedd y buarth.

WILLIAM : Llwgfa neu beidio—a ches i ddim llwgfa, dim ond pwl o wendid—af i ddim i'r gwely am unrhyw arian. Fe fyddaf yn eithaf reit ond i mi gael eistedd yn y gadair man hyn am awr neu ddwy.

OLWEN [*o ddifri*] : Ewch, tadcu. Petaech chi ond cael dwy awr yn y gwely fe fyddech yn ddyn newydd—wedi dod dros y lwgfa yna'n llwyr. Fe gewch godi erbyn te a mynd allan i'r cae gwair wedyn.

WILLIAM : Dydw i ddim yn mynd a dyna ddigon—mynd i'r gwely a'r bobol allan wrth y gwair ! Rydw i'n gwybod beth sy'n bod yn burion—y ddwy fenyw yna sydd wedi dy anfon . . .

OLWEN : Nage'n wir . . .

WILLIAM : Yn meddwl y cait ti berswâd arna i. Ond fe alla i weld trwy eu triciau nhw'n iawn. Yn meddwl y gwnawn i wrando arnat ti lle na wnawn i wrando arnyn *nhw*.

OLWEN : Nage wir, tadcu, fe wnâi les i chi . . .

WILLIAM : Roeddwn i'n meddwl y buasit ti'n ochro gennyf fi. Fe fuais yn dy ddisgwyl adre o'r coleg ac yn dweud o hyd, 'O bydd, fe fydd Olwen o'm plaid i pan ddaw hi adre'. A dyma ti, cynddrwg â'r un o'r ddwy—yn waeth, gan dy fod ti'n fwy cyfrwys na nhw.

OLWEN : Ond o ddifri, tadcu, fe ddylech fynd i orwedd . . . [*Daw SARA i mewn o'r dde, wedi'i gwisgo yn barod i fynd at y gwair*].

SARA : Wrth gwrs y dylai. Fe gerddodd lawer gormod bore heddiw. Doedd dim cisiau iddo fynd yr holl ffordd a dod yn ôl i gwympo'n hanner marw man hyn.

WILLIAM : Beth wyddost ti p'un a oedd yn rhaid i mi ai peidio. Petaech chi'r menywod yn meindio'ch busnes eich hunain . . .

SARA : Dim ond styfnigrwydd i gyd. Fe allai Ifan fod wedi mynd yn iawn. Credwch chi fi, ddewch chi ddim yn ddigon da i fynd allan i helpu i gywain y gwair hadau fory, os na ewch chi i orffwys y pnawn yma.

OLWEN : Ie, ewch, tadcu, dydych chi ddim am fethu mynd allan i'r cae fory, ydych chi ?

WILLIAM : Mae'n galed ar ddyd sy'n cael ei ordro o gwmpas gan dair menyw.

[*IFAN yn dod i'r golwg o'r Ch. yn llewys ei gryd ac â rhaca gwair yn ei law.*]

IFAN : Ble mae'r dŵr a'r blawd yna ?

SARA : Mae ar y ford yn y gegin fach.

IFAN : Nac ydyw ddim.

SARA : Oni roddais i e yno ?

IFAN : Dyw e ddim yno nawr beth bynnag.

SARA : Mae e yn y gegin yn rhywle ; defnyddia dy lygaid.

IFAN : Rydw i wedi chwilio.

SARA : O'r annwyl, y dynion yma . . . [*Allan i'r Ch.*]

IFAN [*yn sefyll ger y drws*] : Dalla i ddim mynd allan i'r cae heb ddŵr a blawd ar brynhawn twym, alla i ?

WILLIAM : Paid ag achwyn, Ifan bach. Mae'r menywod yma yn ceisio fy nghael i i fynd i'r gwely.

SARA [*yn y drws Ch. yn ymestyn siwg din i IFAN*] : Dyna, dal dy afael arni, neu fe'i colli eto. Roedd hi ar bwys y drws, peth od na fuasai hi wedi cnoi dy goes di.

IFAN [*ar y ffordd i'r drws*] : A wyt ti'n dod i lawr i'r cae gwair y pnawn yma neu aros y ffordd hyn i glebran ?

SARA : Mi fydda i a meistres i lawr yno o'th flaen di, mi fentra, er dy holl sŵn. [*IFAN allan.*]

[*Daw MRS. LLOYD i mewn drwy'r drws D. yn barod i fynd allan i'r cae.*]

SARA : Mae meist'r yn pallu mynd i'r gwely i orffwys.

WILLIAM : Wrth gwrs fy mod i. Fe eistedda i yn y man hyn yn dawel ac fe fyddaf yn eitha reit erbyn te.

MRS. LLOYD : Byddai'n llawer gwell i chi i fynd i orwedd, tadcu. Rydych yn gwybod beth ddwedodd y doctor y tro diwetha.

WILLIAM : Beth ŵyr hwnnw ? Roedd yn rhaid iddo ddweud rhywbeth i ennill ei saith a chwech. Fe fuasai run man gen i wrando ar Sara, yn hollol.

SARA : Pe buasech yn gwrandao mwy arna i, fe fyddech yn gallach.

OLWEN : Fe ddweda i wrthych chi beth—fe wnawn gyfaddawd. Ond i tadcu fynd i orwedd ar ei wely am

ddwy awr caiff beidio a mynd *iddo* a chaiff ddod i lawr i de a mynd allan i'r cae gwair wedyn.

SARA : Dyna hi—dechrau rhoi ffordd i'r dynion yn barod. Petawn i yn cael fy ffordd, cai fynd i'w wely dros ei ben.

OLWEN : Ust nawr, Sara. Beth ydych chi'n ddweud, tadcu ?

WILLIAM : O'r gorau. Ond rwy'n codi erbyn te.

OLWEN : Fe wna i de i chi cyn gynted ag y daw mam i mofyn te i'r cae.

WILLIAM : A bant â thi Sara allan i'r cae yn lle sefyllian ffordd hyn. Mae'r hadau yna yn hen barod i'w ymhoelyd.

SARA [*yn mynd at y drws*] : Paid ti â rhoi rhagor o'i ffordd iddo, Olwen, cofia. [*Allan.*]

MRS. LLOYD [*yn ei dilyn*] : Rho'r tegell mawr ar y tân a gwna de yn barod. [*Allan.*]

OLWEN : Wel, tadcu, beth amdani ?

WILLIAM [*yn ymestyn ei goes allan ac* OLWEN *yn plygu a datod ei esgidiau*] : Fe fydd yn drueni gen i am y dyn a fydd yn cael ei handlo gennyt ti. Rwy'n gallu dod i ben a Sara yn burion—dim ond cyfarth y mae Sara, fel y ci melyn yn cyfarth ar ôl y defaid a dim un ohonynt yn gwneud sylw ohono. Ond mae dy fethod di yn hollol wahanol.

OLWEN : Ym mha ffordd ?

WILLIAM : Rwy'ti fel yr ast fach, yn gwybod y ffordd i gael y defaid i wneud fel yr wyt ti'n mofyn iddyn nhw ei wneud heb gadw dim sŵn—cyfrwystra—dyna beth yw e. Dyna beth y maent yn ei ddysgu i chi yn y coleg, mae'n debyg.

OLWEN : A ydych yn meddwl y cewch chi osgoi mynd i orwedd trwy wenieithio fel yna ? [*Yn tynnu un esgid a dechrau ar y llall.*]

WILLIAM : Gwnei, fe dorri di dy ŵr i mewn cyn iddo wybod bod y ffrwyn yr ei geg.

OLWEN : Beth bynnag, fe'ch rhwystraf chi i fynd i'r mynydd eto ar y tywydd poeth yma.

WILLIAM : Ond Olwen fach, mae'n rhaid i rywun fynd i fyny neu fe fydd tylwyth Rhydyfran yn cael digon o gyfle i dorri'r gron ddŵr.

OLWEN : A beth allasech chi wneud petaech yn eu gweld nhw ?

WILLIAM : Fe wnawn beth rhwystr iddyn nhw.

OLWEN [*yn aros ac yn edrych i fyny ato*] : Tadcu, ydych chi'n meddwl ei bod yn beth iawn i gadw hen gweryl fel hwn yn fyw ? Wedi'r cwbl, mae pobol Rhydyfran yn gymdogion i chi. Fuasech chi ddim yn falch petaem ni'n actio'n gymdogol tuag atyn nhw. Maent yn ffrindiau â phawb arall sy'n gymdogion iddynt. Pam y mae'n rhaid i ni beidio â bod felly ?

WILLIAM : A wyt ti'n meddwl y gallwn i anghofio popeth y mae'r gethern yna wedi'i wneud i ni fel teulu drwy'r blynyddoedd ?

OLWEN : On'd ydych chithau wedi gwneud yr un pethau iddyn nhw—gwaeth pethau efallai. [*Yn tynnu'r ail esgid.*]

WILLIAM : Na, wnes i ddim yn *waeth* nag a wnaethon nhw i ni.

OLWEN : Dydy'r yspryd dialgar yna ddim yn beth canmoladwy iawn, tadcu. [*Yn gwisgo ei sliperau.*]

WILLIAM : Nid fi a ddewisodd y cweryl yma.

OLWEN : Ond fe ellwch ddewis ei orffen.

WILLIAM : Na dalla i ddim gwneud hynny chwaith. Mae gormod wedi digwydd i mi allu gwneud hynny.

OLWEN : Mae maddau yn fwy o gamp na dial.

WILLIAM : Ni allai run sant faddau i'r cynllwyniaid yna. Ni allai'r Archangel ei hunan ddim gwneud hynny ar ôl yr hyn sydd wedi pasio. Mae gwaed y gŵr drwg ei hunan yn eu gwythiennau. Paid â siarad ag un ohonyn nhw fyth, rwy'n rhoi siars arnat ti. Rwy'ti wedi bod i ffrwdd, wedi bod ymhell oddi wrthynt neu ni fuasit yn siarad mor ysgafn am faddau iddynt.

OLWEN : Sut dechreuodd y cyfan, tadcu ?

WILLIAM : Shincyn, tadcu y bechgyn yna, a brynodd Rhydyfran pan oedd fy mrawd yn byw yno—ei brynu dan ei drwyn a'i droi allan heb le i fynd iddo. Gorfod iddo werthu ei stoc a'i offer i gyd. Ni ddaeth fyth dros y peth ; aeth i'w fedd cyn pen blwyddyn. Dyna sut set yw'r Morgansiaid, Olwen. A wyt ti'n disgwyl i mi weithredu'n gymdogol tuag at deulu a drodd fy mrawd allan o'i fferm a'i ddanfôn i'r bedd ?

OLWEN : Ond dydy'r bechgyn sydd yno nawr ddim yn gyfrifol am waith eu tadcu.

WILLIAM : Nid dyna'r cwbul—nage, nage, o bell ffordd.

JONATHAN [*o'r gegin allan*] : Helo ! Rwy'n clywed lleisiau i mewn yma. [*Daw i'r golwg.*]

OLWEN [*yn codi*] : Halo, Nwncwl ! A ydych chi ddim wedi dechrau ar y gwair eto ? Eisteddwch ! [*Yn ymestyn cadair ar y Ch. i'r burdd.*]

JONATHAN [*yn eistedd*] : Na, ond rwy'n meddwl torri'r hadau cyn nos. Roeddwn yn gweld eich pobl chi wrthi'n ymhoelyd yr hadau.

[*OLWEN yn mynd i roi golwg drwy'r ffenestr.*]

WILLIAM : Ydynt, a minnau'n gorfod mynd i orwedd, Jonathan. Ni fuais erioed o'r blaen a slipers am fy nhraed ar brynhawn teg ynghanol cynhaea gwair.

JONATHAN : Pam . . . beth . . . does dim . . . ?

OLWEN [*yn dod nôl o'r ffenestr*] : Tadcu fuodd yn fachgen drwg bore heddiw, nwnawl. Fe aeth i'r mynydd heb ddweud gair wrth neb ac fe gafodd lwgfa ar y clos ar ôl dod nôl. Ni wyddai neb beth oedd yn bod arno.

WILLIAM : Does dim arna i—dim ond y menywod yma yn gwneud ffwdan am rywbeth bach, a Sara yn uwch ei chloch na neb fel rhyw iar glwc heb gywion.

OLWEN : A dydych chi ddim i'w gadw e ar lawr, nwnawl. Pum munud a dim rhagor. Ac felly dwedwch

eich stori yn frysiog neu fe fydda i yn eich stopio cyn i chi orffen. [*A at y ffenestr eto—mae'n gweld rhywun y tuallan ac yn amneidio arno i ddangos bod rhywun i mewn.*]

JONATHAN : Y . . . wel, y . . . William, fe fydd yn rhaid i mi werthu hanner fy na blwyddi yn y Mart nesaf.

WILLIAM : Gwerthu dy dda blwyddi ? Beth wyt ti'n geisio ddweud, fachgen ? Mae'r pris yn llai nawr nag a fu drwy'r gwanwyn.

JONATHAN : Does gen i ddim dewis i'w gael, William. Mae'n rhaid i mi eu gwerthu neu tagu o syched a wnânt. Does gen i ddim dŵr iddyn nhw.

WILLIAM : Oni ddwedais i wrthyt ti y gallit ti eu troi i mewn i'r Waen Isa pryd y mynnit.

JONATHAN : Beth gwell ydw i o hynny ? Mae 'nghaeau isaf i mor llwm a llawr tŷ. Does yno ddim digon o borfa i'r gwartheg. Rhaid i mi gadw'r da blwyddi yn y caeau ucha ac y maent yn brefu am ddŵr drwy'r dydd—dalla i ddim dioddef gwranddo arnyn nhw. Rydw i wedi dod yma i roi un cynnig arall i'ch cael i wneud cytundeb â'r Morgansiaid.

WILLIAM : Dwyt ti ddim yn sylweddoli beth yr wyt yn ei ofyn, Jonathan. Roedd y set yna wedi gollwng y dŵr, wedi torri'r gron yn y nos echnos.

JONATHAN : Rydw i wedi'u gweld nhw yn fechgyn cymdogol, parod i wneud cymwynas bob amser.

WILLIAM : Dwyt ti ddim yn eu adnabod, dyna i gyd.

JONATHAN : Fe gollwch eich parch yn y gymdogaeth i gyd, William. Mae pobol yn siarad amdanoch y tu ôl i'ch cefn—pobol oedd yn arfer edrych i fyny atoch, drwy'ch oes.

WILLIAM : Dydy barn y gymdogaeth yn blino dim arna i. Rydw i wedi sefyll ar fy nhraed fy hun drwy foes ac fe wnaif hynny eto am yr ychydig sydd gen i i fod yma.

JONATHAN : Pam na sylweddolwch chi bod y digofaint yma wedi bod fel haint ar y ddau le ac ar eich ffrindiau

ers deugain mlynedd a rhagor. Peidiwch â'i adael yn waddol i'ch dau wŷr.

WILLIAM : Mae Dafydd ac Olwen yn teimlo yr un ffordd a minnau.

OLWEN : Nac ydym, tadcu. Rydw i am i chi wrando ar nwnawl.

WILLIAM : Ni wyddost ti ddim am y peth. Rwyf ti wedi bod i ffwrdd . . .

OLWEN : Dyna pam yr wyf am i chi . . .

WILLIAM : Paid â dweud rhagor nawr, Olwen. Dydw i'n beio dim arnat ti, Jonathan. Mae dy stoc gen ti i feddwl amdanynt.

[*OLWEN yn crwydro at y ffenestr eto ac yn amneidio.*]

JONATHAN : Ond William, y mae'r anfadwaith yr ydych chi'n ei gynllunio nawr yn waeth na dim a ddigwydd i'm stoc i.

OLWEN [*o'r ffenestr*] : Beth, nwnawl?

JONATHAN : Mae'n annynol, William. Nid chi sydd wedi gwneud hyn ond yr hen fachgen y tu mewn i chi.

WILLIAM : A ydi e'n waeth na'r hyn a wnaeth Shincyn Morgan i Isaac fy mrawd?

JONATHAN : Nac ydy, nac ydy, ond nid dyna'r peth.

WILLIAM : Rydw i wedi disgwyl am y cyfle am ddeugain mlynedd, a phopeth a wnaethant i mi wedi hoelio fy mhenderfyniad yn gryfach. Ac ni wna dim a ddwedi di, Jonathan, siglo fy mhenderfyniad.

OLWEN [*yn siglo ysgwydd ei hewythr*] : Beth sy'n bod, nwnawl?

WILLIAM : Dydy e ddim i ti, Olwen.

OLWEN : Ydy, mae e'n rhywbeth i mi. Dwedwch, nwnawl.

JONATHAN : Mae teulu Rhydyfran wedi derbyn tri mis o notis i dalu nôl bum can punt a gawsant eu benthyg dair blynedd nôl i gadw Alun yn y coleg.

OLWEN : Ond beth sydd gan tadcu i'w wneud â hynny?

WILLIAM : Does dim eisiau iddi hi wybod, Jonathan.

OLWEN : Oes, y mae eisiau i mi wybod. Dwedwch, nwnawl.

JONATHAN : Fe ddylai wybod, William. Jones y cyfreithiwr a roddodd fenthyg yr arian iddyn nhw, a phan aeth yntau i'r wal fe werthodd y weithred i'th dadcu, a'th dadcu yn mynnu codi'r arian nawr. Fe fydd yn rhaid iddyn nhw werthu eu stoc a'u cyfan i'w talu'n ôl.

OLWEN : Dydych chi ddim i wneud hyn, tadcu.

WILLIAM : A minnau wedi gorfod talu hanner canpunt i Jones yn fwy na gwerth y weithred?

JONATHAN : Fe rodda i gymaint amdani nawr ag a roddasoch chi.

WILLIAM : A wyt ti'n meddwl fy mod i'n mynd i gollir cyfle hwn? Cyfle yr ydw i wedi bod yn ei ddisgwyl drwy'r blynyddau. Nid oes dyn na diafol a all fy rhwystro. Fe fydd y Morgansiaid allan o Rydyfran cyn Gwyl Fihangel a fe fydd Isaac fy mrawd a Dafydd fy mab wedi eu dial o'r diwedd.

[*Y mae'n codi ei lais tua'r diwedd ac â OLWEN ato i geisio ei dawelu.*]

OLWEN : Nawr, rhaid i chi beidio â chynhyrfu eich hun. Fe gawn ni siarad am hyn eto.

WILLIAM : Does dim siarad i fod . . .

OLWEN : Mae'n well i chi fynd, nwnawl.

WILLIAM : Fe ddweda i wrthyt ti beth wna i â thi, Jonathan . . .

OLWEN : Dim rhagor . . .

WILLIAM : Dim ond hyn. Fe gei di anfon dy dda blwyddi i'n mynydd ni—mae digon o borfa yno ac ni fydd eisiau i ti ofidio am ddŵr wedyn.

JONATHAN : Byddwn yn fodlon colli fy na blwyddi i gyd petawn i'n eich cael chi i weld synnwyr.

WILLIAM : Nid dy gynnen di yw hi. Cadw di allan ohoni. Dydw i ddim am i ti ddod i mewn iddi o gwbl,

ac y mae'n anffodus bod dy dda heb ddŵr. Ond fe gei di borfa a dŵr ar ein mynydd ni.

JONATHAN : Dydw i ddim yn hoffi . . .

WILLIAM : Fe gaiff Ifan a'r ast ddod i dy helpu i fynd â nhw i fyny ben bore fory, cyn ein bod yn dechrau ar y gwair.

OLWEN : Nawr, dyna ddigon. Allan â chi, nwnawl.

WILLIAM [*a gwên ar ei wyneb eto*] : A welaist ti sut feistres fach erioed ?

OLWEN : Mae nwnawl yn llawer mwy ufudd na chi. [*Mynd ag ef at y drws.*]

WILLIAM : Ac fe fydd Ifan i lawr tua chwech bore fory i'th helpu. Amser yr haul ac nid amser Lloyd George, cofia.

[JONATHAN ac OLWEN yn mynd allan i'r Ch.]

JONATHAN [*werth fynd*] : O'r gorau. [*Daw OLWEN yn ôl ar unwaith.*]

OLWEN : Dim rhagor o chwilmanta, tadcu. [*Yn ei helpu i godi.*] Mae'n well i mi ddod i fyny gyda chi [*Y ddau yn mynd at y drws D.*]

WILLIAM : Rho di lonydd i mi ac af fi i fyny yn eitha reit. Dydw i ddim ar ben eto, o nac ydw, o bell ffordd, ac fe gaiff y Morgansiaid weld hynny hefyd.

[OLWEN yn agor y drws.]

OLWEN : Ydych chi'n siŵr y byddwch chi'n iawn ?

WILLIAM [*yn mynd o'r golwg*] : Byddaf, byddaf.

[OLWEN yn ei wyllo yn mynd i fyny'r grisiau ac yna yn rhedeg at y ffenestr ac yna yn ôl i'r drws. Wedi iddi glywed WILLIAM yn cau drws ei ystafell, y mae'n cau'r drws ac yn rhedeg i'r ffenestr ac yn amneidio ar ALUN i ddod i mewn. Rhed yn ôl. Egyr y drws eilwaith a gwrendy yno am eiliad neu ddwy, yna yn ôl i ddrws y gegin fach ac yn y man daw i mewn ym mraich ALUN.]

OLWEN : Pe buasit ti'n gwybod faint o waith a gefais i gael gwared ar nwnawl Jonathan ! Welodd e ddim ohonot ti, do fe ?

ALUN : Naddo, merch i, does dim eisiau i ti ofidio. Mae pawb ond dy dadcu yn y cae gwair. Ble mae e ?

OLWEN : Mae e'n gorwedd ar y llofft. Paid â siarad yn uchel. [*Eistedd ALUN ar y gadair a thynn OLWEN i eistedd i'w gôl.*]

ALUN : Roeddwn yn dechrau meddwl na chawn dy weld o gwbl.

OLWEN : Fe fethais a chael cyfle i ddod allan neithiwr ac fe wyddost sut y bu hi echnos. Sut buaist ti mor dwp â gadael i Dafydd dy weld ti ?

ALUN : Mae'n rhaid bod llygaid cath ganddo. Roeddwn i mewn man tywyll y tu ôl i'r tŷ gwair. Feddyliais i erioed y gwelai fi.

OLWEN : Beth pe buasai wedi dychmygu dy neges yno ?

ALUN : Paid â dechrau meddwl am sut bethau diflas y prynhawn yma.

OLWEN : Ond beth ydym ni yn mynd i'w wneud ?

ALUN : Rwy'n gwrthod meddwl am hynny nawr. Mae'r awr hon i ni ein dau a does neb yn mynd i ddod rhyngom ni, a dydyn ni ddim yn mynd i feddwl am neb arall. Wyddost ti fy mod i wedi edrych ymlaen at y funud hon ers misoedd [*yn rhoi cusan iddi*].

OLWEN : Rydw innau hefyd wedi bod yn cyfri'r dyddiau.

ALUN : Wyddost ti beth oeddwn i'n ei wneud ?—marcio'r dyddiau fel yr oeddynt yn mynd a chyfri faint oedd ar ôl o hyd.

OLWEN : Doeddwn i ddim yn siŵr p'un a aethit i edrych am lythyr yn y goeden ddoe. Fentrwn i ddim danfon llythyr drwy'r post rhag ofn yr adnabyddai Enoc y postman fy llawysgrifen. Fe fyddai'n sicr o ddweud rhywbeth wrth tadcu.

ALUN : Fe fum i ddwywaith yn y goeden yn chwilio llythyr cyn i mi gael un yno, merch i. A chyda llaw, pam na ddaethost ti adre dydd Llun fel yr addewaist yn dy lythyr diwetha i mi yn Llundain.

OLWEN : Gorfod i mi . . .

ALUN : Paid â dechrau llunio celwydd. Y gwir—dim ond y gwir. Pwy oedd y stiwdent a'th gadwodd yno noson yn hwy?

OLWEN : O Alun, dwyt ti ddim . . . [*yn sylweddoli mai profocio y mae*] wel roedd yna un yn cadw'n go glos ataf yn ddiweddar. Bachgen neis dros ben hefyd, Aeth â mi ddwywaith i'r pictiwrs ac unwaith am bicnic.

ALUN : O, fe do, do fe? Gad i mi ddod o hyd braich iddo fe, dyna'i gyd. Dim ond cael gafael ar ei wddf. Neu, gwell fyth, cyfle i dorri allan ei donsils—ei gael yn yr *operating theatre* i dorri ei *appendix*. Ai e ddim â thi i bicnic wedyn. Pwy oedd e, dwed?

OLWEN : Roedd yna sawl un i gyd.

ALUN : A fu capten y tîm Rygbi ar dy ôl di y term hwn?

OLWEN : Roedd e'n hongian o amgylch [*Yn newid*]. Mae'n hyfryd i weld dy genfigen di, Alun [*Newid eto*]. A beth amdanat ti? Beth am y nyrs bert honno y soniaist amdani yn un o'th lythyron?

ALUN : Nawr, dyna lodes neis i ti. Rydw i wedi gweld lot ohoni wedi hynny.

OLWEN : O'n wir! Dyna sut yr oedditi ti'n cyfri'r dyddiau cyn fy ngweld i, aie? A fuost ti â hi yn y theatr?

ALUN : Theatr, do, wn i faint o weithiau, ac allan i swper wedyn.

OLWEN [*o ddifri*] : O Alun, dwyt ti ddim yn dweud y gwir.

ALUN : Pwy sydd â chenfigen nawr? Wyt ti'n meddwl y gallwn i edrych ar rywun arall? [*cusan*]. Ac yr ydw i wedi gorfod aros dau ddiwrnod cyn gael cusan gennynt wedi i ti ddod adre, cofia.

OLWEN : Nid arna i yr oedd y bai, Alun. Fentrwn i ddim dod allan i'th gwrdd ar ôl echnos.

ALUN : Mae'n rhaid i ni drefnu pethau yn well o hyn ymlaen, ynte . . . Wyddost ti mai wythnos sydd gen i i aros yma?

OLWEN : Ie, rwy'n gwybod. [*Yn ymryddhau ei hun a chodi, a mynd i ochr Dde y bwrdd. Eistedd.*]. Rhaid i ni siarad am bethau o ddifri y prynhawn yma, Alun.

ALUN [*yn codi*] : Ie, ond fe alla i siarad synnwyr heb fod cymaint o ffordd rhyngom.

OLWEN : Eistedd di yr ochr yna. Mae mwy o obaith y siaradwn ni synnwyr wrth eistedd fel hyn.

ALUN : A wyt yn sylweddoli na fûm yn agos atat ers chwe mis, a nawr rwyf am roi'r bwrdd rhyngom.

OLWEN : Eistedd. Rydw i o ddifri, Alun.

ALUN [*yn eistedd*] : O wel, os mai felna mae hi i fod! Beth ydym ni'n mynd i'w wneud nawr? Tynnu wyneb-au ar ein gilydd? Fe ddechreua i. [*Yn tynnu wyneb arni.*]

OLWEN : Alun, paid. Wyt ti'n cofio i ti ofyn i mi mewn llythyr dro yn ôl, petawn i'n gorfod dewis rhyngot ti a'm teulu—p'un fyddai fy newis? Wel, y mae bron wedi dod i hynny, Alun.

ALUN : Beth sydd wedi digwydd? A ddwedaist ti beth oeddwn i'n ei wneud yn yr ydlan echnos?

OLWEN : Naddo. Ond alla i ddim dioddef i bethau fynd ymlaen fel hyn eto?

ALUN : Fel peth?

OLWEN : Ti wyddost beth yr wy'n ei feddwl. Roeddwn i yma pan ddaeth dy frawd yma echnos.

ALUN : Y fi gafodd berswâd arno i ddyfod. Ac fe gafodd groeso, on'd do.

OLWEN : Oherwydd bod pethau wedi bod fel hyn am flynyddoedd, mae pawb yn credu bod yn rhaid i'r gynnen barhau am byth. Ac fe fyddem ninnau yr un peth onibai i ni gwrdd yn y coleg.

ALUN : Petait ti'n gallu cael dy dadcu i ollwng y dŵr i lawr drwy'n tir ni . . .

OLWEN : Ni waeth i ti siarad. Mae popeth yn anobeithiol. Na, Alun, fe fydd yn rhaid i mi ddewis.

ALUN : Rhyngof fi a' th deulu ?

OLWEN : Ie, rhyngot ti a'm teulu, rhyngot ti a phopeth arall sy'n annwyl gennyf yn y byd.

ALUN : Fe wyddit a fe wyddwn innau y deuai i hyn ryw ddiwrnod.

OLWEN : Dydy hynny ddim yn gwneud y dewis yn haws.

ALUN : O ? A ph'un yw hi i fod ynte ?

OLWEN : Wn i ddim, Alun. Does gen i ddim digon o ddewrder i ddewis. Mor rhwydd yw pethau fel hyn mewn nofelau ! Mae'r ferch bob amser yn fodlon gadael ei theulu—taflu'r cwbl i fyny. Maent yn gwneud rhywun i feddwl bod cariad yn boddi popeth arall. Ond dydy e ddim. Dydy'r bobl sy'n sgrifennu'r nofelau yna ddim yn gwybod beth yw gadael cartre heb gyfle i ddod yn ôl fyth.

ALUN : Ond fe gawn ein gilydd . . .

OLWEN : Fedren ni ddim anghofio, Alun. Dyna beth sy'n ei gwneud yn galed. Fedrwn i byth anghofio. Mae tadcu a Dafydd a mam yn golygu gormod i mi. Nid dewis yw hi ond torri i ffwrdd un rhan o'm bywyd—mae fel torri braich. Wyt ti'n meddwl y gallem ni fod yn hapus ?

ALUN : Mae dewis gen innau hefyd, yr un fath â thithau. Ond rydw i wedi dewis.

OLWEN : Beth ddwedai dy frodyr ?

ALUN : Fe wyddost mai nhw a'm cynhaliodd yn y coleg. A wyddost ti sut cawsant yr arian ?

OLWEN : Gwn. Fe glywais prynhawn heddiw.

ALUN : Yna fe wyddost bod yn rhaid i'm brodyr chwilio am bumcant o fewn tri mis.

OLWEN : Gwn. Fe wn hynny hefyd.

ALUN : A'r arian wedi'i wario arna i i gyd. A minnau ddim ond wedi dechrau talu nôl y flwyddyn hon. Mae'n golygu y bydd rhaid i'm brodyr werthu eu stoc bron i gyd.

OLWEN : Wnei di ddim gadael iddyn nhw wneud hynny ?

ALUN : Beth arall a allaf ei wneud ?

OLWEN : Ac yr wyt yn fodlon cefnu arnyn nhw wedyn ?

ALUN : Penderfynais gefnu ar fy nheulu os byddai raid pan gyfarfûm â thi yn y coleg. Gwyddwn na fyddai ein llwybr yn un rhwydd. Roeddwn yn gwybod mwy na thi am yr ysbryd cas a oedd rhwng y ddau deulu. Ni feddyliais i erioed y caem ni fendith y naill deulu na'r llall.

OLWEN : Roeddwn innau'n meddwl o hyd y gallem ni'n dau roi terfyn ar y gynnen—y byddem yn gyfyngau i greu gwell ysbryd rhyngddynt.

ALUN : Mae dau dylwyth fel dwy genedl, nid gwaith diwrnod na mis na blwyddyn chwaith yw rhoi terfyn ar hen elyniaeth.

OLWEN : A'elli di ddim dylanwadu peth ar Morgan dy frawd ?

ALUN : Ar ôl y croeso a gafodd yma echnos !

OLWEN : Ceisia ganddo beidio â bod yn fyrbwyll.

ALUN : Ceisia di gan dy dadcu i ollwng dŵr i lawr drwy ein tir ni. Mae Morgan wedi gwerthu dros hanner ei dda stôr yn barod am bris llai nag a gafodd erioed ac y mae'n gorfod cerdded ei wartheg i'r rhyd bob dydd ac y mae eu tafodau yn hongian allan cyn cyrraedd y clos ar ôl bod yno. Wyddost ti, mae fy ngwaed yn berwi wrth feddwl am y creaduriaid yna yn gorfod dioddef oherwydd ysbryd-dialgar dy dadcu.

OLWEN : Ddylit ti ddim dweud hynna, Alun. Dyw e ddim am achosi poen i un creadur. Ni fuodd yna ddyn mwy tyner at greadur erioed. Wna i ddim gwrando arnat ti'n dweud hynna amdano.

ALUN : On'd efe sy'n gyfrifol am yr holl helynt ? Wyddost ti ddim ei fod wedi cynllunio'r cwbl er mwyn distrywio'n teulu ni ?

OLWEN : Mae e'n credu bod ganddo achos.

ALUN : A yw ei achos yn cyfiawnhau ei ysbryd dialgar a'r dioddefaint y mae'n ei achosi ?

OLWEN : Bu ei frawd farw pan drodd dy dadcu ef allan o Rydyfran. Ni wyddost ti ddim faint y mae wedi'i ddirodded yn y gorffennol.

ALUN : A yw ef wedi bod ar ôl yn ei ddial ?

OLWEN : Dy frodyr a'th dad sydd wedi ei gynhyrfu o hyd.

ALUN : Faint sydd er pan gafwyd pedair o'n defaid gorau wedi'u cwrsio i farwolaeth ?

OLWEN : Doedd ganddo fe ddim i'w wneud â hynny. Wedi gwrando ar dy frodyr yr wyt.

ALUN : Mae gennyf gymaint o olwg ar fy mrodyr ag sydd gennyf ar dy dadcu, ac os na elli di weld ei wendidau, fe all eraill eu gweld.

OLWEN : Rwy'n gwybod am ei wendidau cystal â thithau. Dy deulu di a ddechreuodd y cyfan—chi sydd wedi tynnu'r farn arnoch eich hunain. Mae dy frodyr wedi ei brofocio ym mhob ffordd—ddylen nhw ddim—mae e'n hen a hwythau'n ifanc.

ALUN : A elli di ddweud nad yw Dafydd wedi gwneud ei ran i gadw'r tân i gynnu.

OLWEN : A wyt ti'n gweld bai arno fe ? Mae'n rhaid i Dafydd fod yn ffyddlon i tadcu.

ALUN : A thithau hefyd, gallwn feddwl. Roeddwn i'n arfer meddwl dy fod ti wedi tyfu'n uwch na chynnen, ond rwy'n gweld nad wyt ti ddim.

OLWEN : Beth bynnag am y gynnen, ni chei di na neb arall alw enwau ar tadcu a Dafydd yn fy nghlyw i. Dwyf ti'n gweld dim bai ar neb ond fy nheulu i—mae dy deulu di'n hollol ddiniwed—arnom ni y mae'r bai i gyd !

ALUN : Yna, does dim rhagor i'w ddweud. Ofer yw siarad. Rwy'n mynd. [*Saif ger y drws.*] Os byddi am fy ngweld eto, rho lythyr yn y goeden.

OLWEN : Alun ! Dere nôl. Dwyf ti ddim i fynd fel yna.

[*Erys am ennyd.*]

ALUN : Beth gwell fyddwn ni ? [*Yn dod yn ôl a rhoi ei law ar ei hysgwydd*]. Rydym ein dau yn perthyn yn rhy agos i'r ddau dylwyth.

OLWEN : Beth ddaeth drosom ni ?

ALUN : Mae haint y gynnen arnom ninnau. Roeddwn i'n arfer meddwl ein bod yn iach ohoni, ond dydyn ni ddim, weld di.

OLWEN : Fe fuom bron â chweryla. A wyt ti'n cofio ni'n tyngu na wnaem ni ddim cweryla fyth ?

ALUN : Roeddem ni ymhell iawn o Gwmhelyg a Rhydyfran y pryd hwnnw.

OLWEN : Weli di ddim mor galed y mae arna i y prynhawn yma ? Dalla i ddim meddwl byw heb fy nheulu ac ni allaf feddwl byw hebot ti. [*Yn codi a chydio yn ei fraich.*] Mae rhywbeth yn siŵr o ddigwydd. Gad i bethau fod fel y maent am ychydig. Mae'n rhaid i rywbeth ddigwydd.

ALUN : Rwy'n ofni dychmygu'r hyn sy'n mynd i ddigwydd, Olwen. Mae Morgan yn gynddeiriog y dyddiau yma. Mae ganddo bâr o *field-glasses*, ac y mae yn cadw ei olwg arnoch ar hyd y lle yma fel curyll yn cadw ei lygad ar haid o adar. Ni all pethau barhau fel hyn yn hir. Fe fydd yma danchwa ac yr wy'n ofni'r canlyniadau.

OLWEN : Cadw ef oddi wrth Dafydd. Mae hwnnw mor gynddeiriog ag y gall fod, oherwydd i chi dorri'r gron a gollwng y dŵr.

ALUN : Y mae arnaf ofn os bydd rhai o'n gwartheg ni yn trigo o syched, y byddaf innau mor gynddeiriog â Morgan fy mrawd. Mae gweld yr anifeiliaid yn gorfod dioddef yn fy hela i o'm cof. Olwen—y diniwed sy'n gorfod dioddef bob amser.

OLWEN : Ie, run peth a nwnawl Jonathan. Rhaid i mi wneud rhywbeth, Alun.

ALUN : Mae'r peth allan o'n dwylo ni—does gennym ddim i'w wneud ond disgwyl . . .

OLWEN : Dyw'r diwedd ddim ymhell. Mae rhywbeth yn dweud wrthyf . . .

[*Mae'n gorffen siarad a'i cheg yn agored gan edrych at y drws Ch. a gwelir MORGAN yn sefyll ar y trothwy yno.*

Try ALUN i weld beth sydd wedi dal ei sylw.]

[*Ennyd o ddistawrwydd.*]

MORGAN [*yn fgythiol o ddistaw*] : A dyma beth a ddysgwyd yn y coleg? Rwyd yn cael gwell croeso yma nag a gefais i, Alun.

ALUN : Morgan, rhaid i ti beidio . . .

MORGAN : Dyna'r pam yr oedd Patriarch Cwmhelyg yn danfon ei wyres i'r coleg—i gael doctor i'w chadw mewn steil. [*Daw ymlaen ychydig o'r drws. Y mae yn llewys ei grys gan ei fod wedi dod yn syth o'r cae gwair.*]

ALUN [*yn gryfach*] : Morgan, paid . . .

MORGAN : Distrywio fferm ei dad a'i frodyr a'i gael yn ŵr i'w etifeddes. Roedd rhywbeth yn dweud wrthyf mai dyma beth a gawn i yma pan welais i di drwy'r glasses yn slincio i mewn fel lleidr ar hyd nos.

ALUN : Fe gawn ni siarad am hyn eto, Morgan.

MORGAN : Cawn, fe gawn siarad am yr arian a war-iwyd ar dy addysg yn y coleg i ti gael adnabod etifeddes y Llwydiaid. A wyt ti'n meddwl am dy dad ambell waith? Beth ddwedai ef petai'n gwybod bod ei gyw melyn ola yn cyfeillachu â merch i dylwyth Cwmhelyg?

ALUN : Dyna ddigon . . .

MORGAN : Ac os na elli di feddwl am dy dad, meddylia am ein gwartheg yn dioddef ac am yr hyn sy'n mynd i ddiwydd i ni cyn pen tri mis.

ALUN : Dim rhagor, Morgan. Dere oddi yma. [*Yn ceisio ei gael i fynd.*]

MORGAN [*wrth OLWEN*] : Ac amdanoch chi . . .

ALUN : Dwyd ti ddim i ddweud gair amdani neu . . .

OLWEN : Alun, paid, gad i mi siarad ag ef. [*Yn dod rhyngddynt.*] A ydych chi ddim yn gweld nad oes a fynno Alun a minnau ddim â'r gynnen? Eisiau cael y ddau dylwyth at ei gilydd yr ydym ni.

MORGAN : Ie, mae'n debyg. Ydy'r patriarch yn gwybod bod ei aeres yn gyfeillgar â mab Rhydyfran?

OLWEN : Mae'n hen bryd lladd y teimlad cas yma rhwng y ddau deulu.

MORGAN : Ydy'r Llwydiaid i gyd o'r un farn â chi?

OLWEN : Ni ddaw diwedd fyth os na wna rhywun geisio creu gwell teimlad.

MORGAN : Pregethwch chi'r syniadau yna i'ch tylwyth eich hunan, ac nid wrthyf fi. Newidiwch chi dipyn ar ysbryd y tŷ hwn cyn dechrau arna i. A phan fydd Dafydd a'r Patriarch yn gweiddi Amen gyda chi, dewch i ddweud wrthyf i.

OLWEN : Ond pam na wnewch chi fy helpu?

MORGAN : Digon hawdd i chi eich dau siarad am gael y ddau dylwyth at ei gilydd. Rydych chi wedi byw yn ddiagon pell oddi yma—wedi cael bywyd esmwyth braf—beth petaech yn byw yng nghanol y gynnen?

OLWEN : Ond dydych chi ddim yn *ceisio* rhoi diwedd arni.

MORGAN : Oni welsoch chi fi yma echnos, oni welsoch chi'r croeso a gefais? A ydych chi'n disgwyl i mi ddo yma eto?

OLWEN : Ni wnaethoch chi ddim . . .

MORGAN : Ceisiwch chi gan eich tadcu ddod i lawr i Rydyfran i ddweud y caf fi ddŵr i'm hanifeiliaid ac i ddweud na wna wasgu am ei arian ac yna fe siarada i ag ef. Ond nid oes yr un dyn byw yn mynd i 'ngweld i yn dod yma eto i fegian cymwynas.

OLWEN : Mae hawl gan Alun a minnau i fyw ein bywyd ein hunain . . .

[*Mae lleisiau wedi codi tipyn erbyn hyn.*]

MORGAN : Ni ellwch chi ddim byw eich bywyd eich hunain. Mae gwaed y Llwydiaid yn eich gwythiennau chi—gwaed sydd wedi bod yn cynhenna â'n teulu ni ers blyneddoddedd. Dylech wybod hynny a sylweddoli bod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn groes i natur.

ALUN : Rhaid i tithau sylweddoli hefyd, Morgan, nad yw'r hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol yn mynd i gael dinistrio fy mywyd i na bywyd Olwen.

MORGAN : Dinistrio'ch bywyd chi ! Ydy 'mywyd i ddim wedi ei ddistrywio yn barod ? Er mwyn dy godi di yn dipyn o ddoctor ? Chwe mis rhwng corn yr arad a ddyllit ti ei gael a byw tu arall i glawdd ffin Cwmhelyg.

ALUN : Ond dyw Olwen ddim yn . . .

MORGAN : Ni fedr dy dylwyth fyth edrych arni ond fel wyres i un o gythreuliaid Cwmhelyg.

ALUN : Chei di ddim siarad felna . . .

MORGAN : A wyt ti am waed y Llwydiaid yn dy blant ?

[*Egyr y drws a saf WILLIAM yno. Daw ymlaen yn araf ac yn fgythiol ar bwys ei ffon. Y mae OLWEN yn sefyll o'i flaen.*]

WILLIAM : Pwy sy'n beiddio siarad am gythreuliaid Cwmhelyg yn y tŷ hwn ?

MORGAN : Fe'i dwedaf eto os ydych am i mi wneud.

WILLIAM : Pa neges lechwraidd a ddaeth â'r ddau hyn yma, Olwen ?

MORGAN : Ceisio achub un o'm brodyr o grafangau eich hiliogaeth chi.

WILLIAM : Beth ddwedaist ti ?

OLWEN : Tadcu, rhaid i chi beidio â gwylltio. Alun, ewch nawf er mwyn popeth.

MORGAN : Sut ydych chi'n hoffi'r syniad o'ch wyres yn ymuno mewn glân briodas ag un o fechgyn Rhydyfran ?

ALUN : Morgan, dere . . .

MORGAN : Neu a oes raid cael doctor yn ŵr iddi ar unrhyw gyfri ?

WILLIAM [*wrth OLWEN*] : A ydy'r hyn y mae'r diefflyn yna'n ddweud yn wir ?

MORGAN : Meddyliwch am eich gorwyrion â gwaed tylwyth Rhydyfran ynddynt !

WILLIAM [*yn codi ei lais*] : A ydy e'n dweud y gwir neu llunio celwydd y mae ?

MORGAN : A ydych chi'n meddwl y buaswn i yma onibai ei fod yn wir ? A ydych yn meddwl fy mod yn awchlymu am weld brawd i mi yn cael ei hudo gan un o hiliogaeth y Llwydiaid ?

WILLIAM : Os oes un peth yn sicr ar y ddaear yma, hwnnw yw na fydd wyres i mi yn priodi i mewn i'th dylwyth di.

MORGAN : Ac na fuasai fy nhylwyth i yn ei derbyn.

ALUN : William Lloyd . . .

OLWEN : Alun, paid, wnei di ddim ond gwneud pethau'n waeth.

ALUN : Na, mae'n rhaid i mi gael dweud.

WILLIAM : Dydw i ddim am glywed gair o'th ben di.

ALUN : Beth sydd gennych yn fy erbyn ? Dim ond fy mod yn digwydd perthyn i deulu Rhydyfran.

WILLIAM : A ydy hynny ddim yn ddigon ?

ALUN : A ydw i'n gyfrifol am gamweddau fy ngheulu ?

OLWEN : Tadcu, mae Alun a minnau . . .

WILLIAM : Dyna ddigon ! A wyddost ti beth wyt ti am ei wneud ? Os priodi di i mewn i'r teulu hwn, fe fyddi'n priodi â mab neu nai i lofrudd dy dad.

OLWEN : Beth ?

MORGAN : Hen ŵr, gofelwch beth a ddwedwch.

WILLIAM : Rwy'n dweud beth a wn. Rwyf mor siŵr mai un o fechgyn Rhydyfran saethodd ar ôl yr ebol yr oedd yn ei farchogaeth ag yr wyf bod yfory yn dilyn heddiw. Oni ddwedodd e wrth dynnu ei anadl olaf

fod rhywun wedi saethu ar ei ôl? A fynni di briodi ag un o'r teulu oedd yn gyfrifol am farwolaeth dy dad?

MORGAN: Ni chaiff neb ddweud hyn yna am fy nhad ddwywaith. Ac os clywaf chi'n ei gyhuddo eto, ni fydd eich oedran na'ch gwallt gwyn yn ddigon i'm rhwystro rhag gwneud niwed i chi.

WILLIAM: Gwna dy waethaf. Dydw i ddim am guddio tu ôl i'm hoedran. Rwyf wedi sefyll o'ch blaen erioed ac fe wnaf hynny hyd fy medd heb ofn nac arswyd. Ac os gwela i di neu un o'th frodyr yn agos i Olwen eto neu'n agos i gyffiniau'r tŷ yma, ni fydda i yn gyfrifol am y canlyniadau.

MORGAN: Dydw i ddim mor hoff o'ch hiliogaeth chi â hynny. Dere, Alun, a gad iddyn nhw sgyrnygu eu dannedd faint a fynnont. Mae'r genawes yn perthyn yn agos i'r hen gadno. [*Yn troi yn ôl yn sydyn a newid ei lais*] Ac os clywaf eich bod chi'n dweud hyn am fy nhad eto, fe fydd yn edifar gennyh o waelod eich calon. Dyna rybudd i chi.

[DAFYDD *i mewn yn sydyn o'r Ch. gan glywed y frawddeg olaf. Y mae brigyn ywen â dail arno yn ei law.*]

DAFYDD: Ac fe rof finnau rybudd i tithau. [*Rhed OLWEN i sefyll rhyngddynt.*]

OLWEN: Dafydd, paid. [*Dafydd yn ei guthio naill ochr; hithau yn hongian wrtho.*]

DAFYDD: Wn i ddim beth yw eich neges chi ond gan eich bod yma fe gewch wrando ar yr hyn sydd gen i i'w ddweud. [*Wrth MORGAN.*] A wyddost ti rywbeth am y rhain? [*Deil y brigau o flaen MORGAN.*] Edrych yn dda arnynt a cheisia gofio ble gwelaist ti nhw ddiwetha?

WILLIAM: Brigau yw ydynt. Ble cefaisst di nhw?

DAFYDD: Gofynnwch i'r ddau hyn. Lwc i mi fynd lawr i'r waun gynnau, onid e, Morgan?

MORGAN: I beth yr wyt yn gofyn i mi?

DAFYDD: Fe fydd yn ddrwg gennyt wybod nad oes un o'r wŷn yn sal. Roeddwn yno mewn pryd.

WILLIAM: A oedd yr wŷn yn bwyta'r yw yna?

DAFYDD: Oeddynt. Roedd rhywun wedi bod yn ddigon caredig i daflu peth o'u blaen. Hanner awr arall ac fe fyddai hanner dwsin ohonynt ar y ffordd i drigo.

WILLIAM: Pam y sefi di fan yna heb wneud dim?

DAFYDD: Beth sydd i'w wneud? Petawn i'n gofyn i'r ddau hyn ai nhw a daflodd yr yw i'r defaid, a fuaswn i un chwythryn gwell?

MORGAN: Profwch hynny! Profwch hynny! Dyna beth sydd raid i chi ei wneud [*at y drws*]. Dere, Alun. Fe fydd ganddyn nhw fwy o gydymdeimlad â'r anifeiliaid sy'n dioddef syched, nawr. Profwch hynny. [*Allan.*]

[*Y mae ALUN yn rhyw hanner aros ac yn edrych ar OLWEN.*]

[*Hithau yn amneidio arno i fynd. Dilyn MORGAN allan.*]

DAFYDD: Beth oedd y ddau yna'n mofyn yma? Begian dŵr eto?

OLWEN: Dafydd, beth wyt ti wedi'i wneud? Rwy'n deall yn iawn dy fod wedi gwneud rhyw ddrygioni.

WILLIAM: Dydw i'n deall dim ohonot ti. Gadael i'r ddau yna fynd a chymryd y peth mor ddidaro...

DAFYDD: Peidiwch â phryderu dim, tadcu. Rydw i wedi talu'r ddyled yn barod, ond doeddwn i ddim am iddyn nhw wybod nawr.

OLWEN: Beth wnest ti, Dafydd?

DAFYDD: Fe wnes beth a wnâi unrhyw ddyn a rhywbeth yn ei ben. Fe deflais yr yw yn ofalus i ganol eu hŷn nhw. Fe gollant y lot os na ddigwyddant fynd i'r cae cyn pen dwyawr.

WILLIAM: Faint o yw oedd yno?

DAFYDD: Digon i wenwyno dwsin o wŷn. Dyna pam y ceisiais i beidio colli fy nhymer. [*OLWEN yn cychwyn at y drws.*] Ble wyt ti'n mynd?

OLWEN [*o'r drws*]: I ddweud wrthyn nhw; i geisio safio'r wŷn a dangos rhyw ychydig o drugaredd at greaduriaid mud.

[*Ā DAFYDD ar ei hól ar unwaith ; deil hi a daw á hi yn ôl.*]

DAFYDD : Gad iddyn nhw edrych ar ôl eu hŵyn eu hunain. Nhw ddechreuodd y fusnes.

OLWEN : O Dafydd, beth gwell fyddi di. Rwyf ti'n byw er mwyn y gynnen yma ; neb ohonoch chi'n meddwl am ddim ond dyfeisio ffyrdd newydd i ddiol. [*Yn mynd at WILLIAM*]. Tadcu, rwy'n erfyn arnoch chi, er ein mwyn ni i gyd, i wrando arna i.

WILLIAM : Rwyf wedi dweud wrthyt ti o'r blaen, nad wyt ti ddim yn deall. A phetawn i'n gwybod y buasit ti'n cwrdd â'r bachgen yna yn y coleg, fuaswn i ddim yn dy anfon di yno ar unrhyw gyfri.

DAFYDD : Ydy Olwen yn gyfeillgar â'r doctor yna ?

OLWEN : Rhaid i chi eich dau ddeall—nid yn unig yn gyfeillgar, ond yn bopeth yn y byd i'n gilydd. Byddai byw heb Alun yn amhosibl i mi.

DAFYDD : Fe fydd yn rhaid i ti fyw hebdo. Cyn y cei di ei briodi, fe'i herlidiaf i bendraw'r byd.

OLWEN : Pam na wnei di adael i mi dorri'n rhydd o'r gynnen os ydw i am ?

DAFYDD : Wyt ti ddim yn cofio y pethau ddigwyddodd pan oeddem yn blant ? Wyt ti ddim yn cofio amdanat ti a minnau yn wylo ar ôl Rofer ? Ac am 'nhad . . . ?

OLWEN : Fe alla i anghofio Rofer a phopeth, a hyd yn oed petawn i'n credu mai tad Alun achosodd farwol-aeth 'nhad, wnâi hynny ddim gwahaniaeth i mi.

WILLIAM [*o'r gadair ar y Ch.*] : Olwen, dere yma. [*Hithau'n mynd.*] Rwyf ti'n gwybod cymaint o olwg sydd gen i arnat ti. Rwyf yn gwybod y rhoddwn i bopeth yn y byd i ti, pe gallwn i.

OLWEN : Gwn, tadcu, ond . . .

WILLIAM : Aros i mi gael gorffen. Wrthodais i ddim i ti erioed. A nawr rwy'n mynd i ofyn i ti wneud un peth i mi. Nid fel tâl, ond o barch i'th dadcu ac i'th deulu. Elli di ddim torri oddi wrth dy dylwyth, weld di. Yma mae dy wreiddiau di. Ni all na choleg nac addysg

newid hyn. [*OLWEN yn ceisio siarad, ef yn ei thewi ag ystum*]. Rwyf am i ti addo peidio gweld na siarad eto a'r bachgen yna, mab Rhydyfran, mab i'r teulu a achosodd farwolaeth dy dad. Rwy'n gofyn i ti ei dorri allan o'th fywyd yn llwyr o'r dydd heddiw.

OLWEN : Ond tadcu, rydych yn gofyn i mi aberthu fy hun i'r gynnen.

WILLIAM : Os na wnei di hyn, os mynni di fynd dy ffordd dy hun, fydd dim lle i ti yn y tŷ hwn. Cymer amser i feddwl.

OLWEN : Dallaf fi ddim, tadcu, dallaf fi ddim.

WILLIAM : Cymer dy amser. Pwysa'r canlyniadau.

DAFYDD : Does dim dewis ganddi. Os na addewi di hyn, fe rodde i ei ddewis i'r doctor yna. Fe ofala i na chei di ddim ei briodi.

OLWEN : Mae mywyd gen i i wneud beth a fynnwyl ag ef. Chei di na neb arall ei gynllunio i mi. Rwy'n mynd nawr i ddweud wrthyn nhw am yr ŵyn a rhoddaf her i ti fy rhwystro.

DAFYDD [*ar ei hól*] : Nac ei di ddim.

OLWEN : Gad fi'n rhydd . . .

WILLIAM [*ar ei draed*] : Dafydd ! Olwen ! Gwrandewch eich dau.

DAFYDD : Chaiff hi ddim mynd i ddweud am yr ŵyn.

OLWEN : Am y tro olaf, Dafydd, gad fi'n rhydd.

[*MRS. LLOYD yn y drws.*]

MRS. LLOYD [*yn dod i mewn*] : Dafydd ! [*Yn dod ymlaen a'u gwahanu.*]

DAFYDD : Mae hi am fynd draw i Rhydyfran i weld y bechgen yna.

OLWEN : Rwy'n ymadael â'r tŷ yma am byth, mam. Alla i ddim diodde rhagor.

DAFYDD : Cofia, os ei di, does dim dod nôl i fod.

OLWEN : Rydw i wedi dewis, tadcu.

MRS. LLOYD : Yn enw'r annwyl, be sy'n bod ?

WILLIAM : Rachel . . . rwy'n teimlo . . . [*Syrthio i'w gadair mewn llwgfa.*]

MRS. LLOYD : Tadcu. [OLWEN *a hithau'n rhedeg ato.*] Dyma beth sy'n dod o'r holl helynt yma. Cerdd i mofyn glasied o ddŵr, Dafydd. A cher di Olwen i nôl tropyn o frandi. [DAFYDD *ac OLWEN allan i ymofyn diêr a brandi.* MRS. LLOYD *yn tynnu ei grafat.* Daw DAFYDD *yn ôl â'r diêr.*]

WILLIAM : Rwy'n eitha reit, dim ond pwl o wendid . . .

MRS. LLOYD : Ie, ie. Fe ddewch atoch eich hunan yn y man. Pam na fuasit ti'n ei anfon i orwedd?

WILLIAM : Fe fuais yn gorwedd hefyd. Mae popeth yn olreit, peidiwch gwneud ffys. Fe ddof fi dros hyn eto . . . Olwen!

MRS. LLOYD : Dyma hi'n dod â brandi i chi. [OLWEN *yn dod i mewn.* WILLIAM *yn gwneud ystum i ddangos nad yw am frandi.*]

OLWEN : O tadcu . . . [*yn penlinio wrth ei ochr.*]

WILLIAM [*yn cydio yn ei llaw*] : Wnei di ddim ymadael a'th dadcu, wnei di? Does gen i ddim rhyw lawer i fod yma eto, wel di. Wnei di ddim addo peidio gweld y bachgen yna tra fydda i byw. Dydy hynny ddim llawer i'w ofyn i ti. Fe fyddi'n falch ar ôl i mi fynd. [*Dim ateb.*] Wnei di ddim, Olwen?

OLWEN : O'r gorau, tadcu, rwy'n addo.

WILLIAM [*â gwên ar ei wyneb*] : Dyna, fe wyddwn mai fy Olwen i oeddit ti yn y gwaclod.

[*A thra bo WILLIAM yn canmol ei llaw, disgyn y llen.*]

ACT III

[*Prynhawn trannoeth.* SARA *yn sefyll wrth y burdd a basgedaid o wyau brunt o'i blaen, yn eu glanhau a'u rhoi mewn basged arall.* Daw IFAN *i mewn o'r Ch. yn llewys ei grys â siwg yn ei law.*]

IFAN : A oes rhagor o enwyn yn y llaethdy? Mae'n anioddefol o boeth ar ben y tŷ gwair.

SARA : Oes. Fe'i cei yn y man ond i mi orffen yr wyau yma.

IFAN : Paid â bod yn hir, bydd Dafydd yn ôl â llwyth o'r cae cyn bo hir—yr un ola, gobeithio.

SARA : Mae'n rhaid i mi orffen y rhain. Fe ddaw'r carrier heibio unrhyw funud. Mae'r ieir yma fel petaen nhw ar eu gorau am wneud gwaith i fenyw.

IFAN : Rhaid i ti ddod i'm helpu i yn y tŷ gwair, carrier neu beidio. Mae'n mynd yn ormod i un dyn nawr.

SARA : Rwy'n gobeithio y daw Olwen nôl i orffen yr wyau.

IFAN [*wedi eistedd erbyn hyn*] : Aeth hi allan i weithio yn y cae?

SARA : Na, mynd gyda'i thadcu a wnaeth hi. Roedd yn rhaid i hwnnw gael mynd. Yn hollol fel petai'r bobl yn methu crafu'r cae yn lân heb ei fod e yno i gadw llygad arnyn nhw.

IFAN : Sara, dwed wrthyf i, os nad oes drwg gofyn, a ddwedodd meistres rywbeth wrthyf ti beth yn gwmws a ddigwyddodd yn y tŷ yma pnawn ddoe?

SARA : Na, ddwedodd hi ddim rhyw lawer, ond rwy'n gwybod y cwbl erbyn hyn, serch hynny.

IFAN : Rydw i'n methu cael dim allan o Dafydd. Welais i erioed ohono fe yr un peth o'r blaen. Mae e fel draenog, a phan fydda i'n dechrau meddwl ei fod

yn estyn ei drwyn allan a minnau'n gofyn cwestiwn, mae'n mynd nôl i'w gwd yn syth. Mae'n rhaid bod rhywbeth rhyfedd wedi digwydd.

SARA : O do, fe fu yma dipyn o le, rhwng popeth.

IFAN : Y cwbl a ddwedodd Dafydd oedd ei fod e wedi gweld yr ŵyn y mae'n eu paratoi i'r bwtshwr yn bwyta yw—dyna'i gyd. Gwaith bechgyn Rhydyfran, debyg iawn.

SARA : O ! Dyna'i gyd wyddost ti ? Doedd hynny'n ddim . . .

IFAN : Roedd yn eitha digon fe allwn feddwl . . .

SARA : Fe fyddai'n well gan yr hen ŵr golli ei ŵyn a'i stoc i gyd na gweld yr hyn a welodd e yn y tŷ yma ddoe.

IFAN : Beth wyt ti'n glebran amdano ?

SARA : A wyddost ti pwy ddaliodd e'n caru ag Olwen yn y gegin yma ?

IFAN : Caru ag Olwen ?

SARA : Ie. Mae'n ddigon hen i garu, on'd yw hi ?

IFAN : Ydy efallai, ond . . .

SARA : Ac â Doctor Rhydyfran os gweli di'n dda !

IFAN : Duw caton ! Wyt ti'n dweud bod yr hen ŵr wedi'u gweld nhw . . .

SARA : Do, a Dafydd, ac fe ddaeth Morgan Rhydyfran ar eu traws hefyd. O do, fe fu yma le, reit i wala.

IFAN : Pwy fyddai'n dychmygu . . .

SARA : Doedd yr hen ŵr na Dafydd ddim wedi dychmygu, yn sicr i ti. Fel pe na bai ddim digon o fechgyn ifainc golygus eraill i'w cael, roedd yn rhaid iddi hi, os gweli di'n dda, gael gafael ar un o fechgyn Rhydyfran.

IFAN : Wel, does gen i ddim yn ei erbyn e. Rydw i wedi'i ffeindio fe yn fachgen neis, isel . . .

SARA : Does neb yn mynd i ofyn dy farn di arno fe. Da thi, ceisia ddychmygu beth y mae'r hen ŵr a Dafydd yn feddwl ohono fel darpar ŵr i Olwen. Un o Forgansiaid Rhydyfran !

IFAN : Mae e'n fachgen dymunol iawn. Fe fûm yn dal pen rheswm ag e pwy ddydd. Fe ddwedodd wrthyf yn gywir beth sy'n bod pan fydda i'n cael poen yn fy nghefn.

SARA : Gofala di na wêl yr hen ŵr di'n siarad ag e.

IFAN : Wyddost ti, Sara, efallai y daw y ddau hyn â'r ddau dylwyth at ei gilydd unwaith eto. Dyna'u tynged nhw efallai.

SARA : Dod â'r ddau dylwyth at ei gilydd ! Hy ! y peth wnan nhw fydd gwneud pethau'n waeth : rhoi rhagor o wynt i'r fflagal, dyna'i gyd.

IFAN : Fe fydda i ar ochr Olwen, beth bynnag.

SARA : Fe fyddit ti ar ochr Olwen petai hi'n llosgi'r tŷ yma'n ulw a thithau y tu fewn iddo. Gelli fentro, os mynn Olwen sticio at y bachgen yma, na chaiff hi ddim croeso yn y tŷ hwn fyth mwy. Does dim yn fwy sicr.

IFAN : Caiff groeso gen i.

SARA : O, treia siarad synnwyr. A wyt ti am ei gweld hi yn cael ei throi dros y trothwy.

IFAN : Ddaw hi ddim i hynny . . .

SARA : Na ddaw hi'n wir ! Rwy'n gwybod beth yw merched yn debyg pan fyddan nhw wedi gwirionio am rhyw lipryn o fachgen ifanc.

IFAN : Dyw Olwen ddim run peth â merched eraill . . .

SARA : Oherwydd dy fod ti wedi bod yn ei magu ar dy liniau !

IFAN : Mae gen i ddigon o ffydd yn Olwen . . .

SARA : Mae hi wedi cael popeth yr oedd hi amdano hyd yn hyn : ond chaiff hi ddim o'r hyn y mae hi ei eisiau nawf. A does dim rhyw lawer o heddwch yn mynd i fod yn y tŷ yma yr haf hwn.

IFAN : Rwy'ti wedi dychmygu hanner y stori yma.

SARA : Ydw i'n wir ? Fe gei di weld . . . [*Gwrendy*]
Ust, dyma hi.

[*Daw OLWEN i mewn o'r chwith.*]

OLWEN : Mae'r llwyth ola yn cychwyn o'r cae. Ifan. A gaf i ddod i'ch helpu yn y tŷ gwair ?

SARA : Gorffen di'r wyau yma. Fe af i i'r tŷ gwair.

IFAN [*wedi codi*] : Beth am yr enwyn ?

SARA : Fe ddof i â hwnnw gennyf. [*Allan i'r Ch.*]

IFAN : Ydych chi'n disgwyl clywed p'un a ydych chi wedi pasio neu beidio heno ? Fe ddwedodd meistres eich bod chi.

OLWEN : Mae'n ddigon posibl y daw teligram cyn nos i ddweud fy mod wedi methu.

IFAN : Na, na, newydd da fydd ynndo fe. Fe fyddwch yn mynd i'r gwely'n hapus heno. Rydych wedi bod yn pryderu drwy'r dydd.

OLWEN : Nid pasio arholiadau yw'r unig beth sy'n achosi pryder a gofid, Ifan.

[*IFAN yn dynesu ati ac yn siarad yn fwy distaw ar ôl taflu golwg at y drws.*]

IFAN : Os byth y bydd arnoch chi eisiau help, Olwen, gellwch ddibynnu arna i . . . unrhyw beth . . .

OLWEN [*d'i llaw ar ei fraich*] : Rwy'n gwybod hynny, Ifan. Fe fyddai'n hyfryd yn y byd yma pe byddai pawb ag ysbryd mor garedig â chi.

IFAN : Mae gen i geiniog fach wedi'i safio—ni fydd byth mo'i hangen arna i . . . dim ond gair, cofiwch. Peidiwch â bod ag ofn gofyn. Rwy'n gwybod mwy nag ydych chi'n feddwl ac os galla i wneud rhywbeth . . .

OLWEN : Efallai y dof i i ofyn am eich help cyn eich bod yn disgwyl, hen ffrind. [*Dyry gusan gyflym iddo. Saif yntau am eiliad wedi'i syfrdanu. Yna try ac â allan heb ddweud gair.*]

[*Â OLWEN ymlaen â'i gwaith. Daw IFAN yn ôl yn union. Cae'r drws ar ei ôl yn ofalus.*]

IFAN [*sieryd fel rhywun sydd yn y gyfrinach*] : Mae'r doctor y tu ôl i'r berth yn yr ardd ger drws y ffrynt. Ydych chi am i mi ddweud wrtho am ddod i mewn ?

OLWEN : Na, na, dwedwch wrtho am fynd, ar unwaith. Fe ddaw tadcu . . . ewch a dwedwch wrtho am fynd . . .

[*Daw ALUN i mewn o'r Ch.*]

IFAN : Rhy ddiweddar. [*Edrych o un i'r llall.*] Fe ddweda i wrthych chi beth. Arhoswch chi yma i . . . fe gadwa i lygad ar y clos o'r ydian ac os daw rhywun at y tŷ, fe roddaf chwibaniad uchel—digon o rybudd i chwi i gael amser i fynd. Peidiwch â gwylltio—fe gadwa i olwg ar fwch y clos. Ddaw neb ar eich traws chi. [*Allan i'r Ch.*]

[*ALUN ac OLWEN yn edrych ar ei gilydd am ennyd cyn siarad.*]

OLWEN : Gofynnais i ti beidio â dod yma heno, Alun.

ALUN : Wyt ti'n meddwl y cei di ymadael â mi fel hyn ? Roedd yn rhaid i mi gael dy weld.

OLWEN : Dywedais y cwbl a oedd gen i i'w ddweud yn fy llythyr.

ALUN : Llythyr oddi wrth ferch Cwmhelyg at fab Rhydyfran a gefais i yn y goeden bore heddiw : nid llythyr oddi wrth yr Olwen a gwrddais yn y Coleg.

OLWEN : Merch Cwmhelyg oeddwn i yr amser hwnnw hefyd ond roedd Cwmhelyg a Rhydyfran ymhell iawr ar y pryd.

ALUN : Ac yr wyt ti'n fodlon i'r awyrgylch hwn i ladd y peth mwya yn ein hanes ni'n dau.

OLWEN [*yn eistedd*] : Rydw i wedi ceisio wynebu ffeithiau, Alun. Ni waeth i mi gyffesu'r peth ar unwaith. Alla i ddim wynebu'r dyfodol heb wybod bod croeso i mi ar yr aelwyd hon. Fedra i mo'r help. Dydw i ddim yn dy garu di'n llai oherwydd hynny. Ond, fedra i ddim diodde meddwl am tadcu yn mell-tithio fy enw. A byddai byw heb Gwmhelyg fel y mae, a heb yr hyn y mae'n olygu i mi, yn amhosibl. Dyna'r gwir i ti.

ALUN : Maen nhw'n golygu mwy i ti nag yr ydwi i.

OLWEN : Na, nid hynny.

ALUN : Beth arall ?

OLWEN : Fedra i mo'i roi mewn geiriau. Ond rwy'n credu y gallwn ymhen amser ddysgu i fyw, rywffodd, hebot ti, ond alla i ddim wynebu'r dyfodol fel alltud o Gwmhelyg. Dyna'r cwbl.

ALUN : Ac felly, gwag oedd yr addewidion a wnaethost ar lan y môr—roeddynt yn ddigon hawdd eu dweud ond pan ddaeth y praw . . .

OLWEN : Alun, paid â gwneud pethau'n galetach i mi. Wyt ti'n credu fy mod i wedi ffeindio ysgrifennu'r llythyr yna neithiwr yn waith hawdd ?

ALUN : Ble mae'r dewrder a oedd yn dy galon y noson honno ?

OLWEN : Rwy'n gofyn i ti wneud yr hyn a gredaf sydd orau i ni ein dau. Mae mor anodd i mi ag i tithau. Dyma nghartre i, Alun . . .

ALUN : Wyt ti'n meddwl y byddwn i yn cefnu ar Rydyfran â chalon ysgafn ?

OLWEN : Ie, dyna hi. Fe fyddit ti'n hiraethu am Rydyfran a minnau am Gwmhelyg. Dyna sut fywyd a gawsem.

ALUN : Rwy'n barod i wynebu hynny, Olwen. Rwy'n gofyn i tithau wneud yr un peth.

OLWEN : Fedra i ddim, fedra i ddim. Byddai gweld hiraeth ein gilydd, dau alltud, yn sicr o dorri'r cwlwm sydd rhyngom yn awr.

ALUN : Na wnâi, ddim. Mentra, Olwen, mentra. Rwy'n gwneud adduned na chei di ddim achos i edifarhau. Dere i fwrdd gen i . . . heno . . . i rywle, rhywle y cawn afael ar ein hen hapusrwydd eto.

OLWEN : Mae hwnnw wedi diflannu Alun. Rhaid i ti gredu mai fi sy'n iawn, mai dyma'r unig ffordd.

ALUN : Dydw i ddim wedi gweithio'n galed am flynyddau a byw heb bob math o bleserau i orfod byw yn y diwedd heb yr hyn yr oeddwn ei eisiau fwyaf o bopeth yn y byd.

OLWEN : Fe wnei ffrindiau newydd . . .

ALUN : Does arna i mo'u heisiau.

OLWEN : Fe elli gael y pleserau y buost fyw hebddynt.

ALUN : Rwy'n dweud wrthyt nad wyf i ddim yn mynd i orwedd o dan y llif fel yr wyt ti'n fodlon gwneud.

OLWEN : Mae'r llif yn rhy gryf i ni ein dau petait ti ond gweld hynny.

ALUN : Nyni sy'n wan. Gyda'n gilydd fe allem wynebu popeth.

OLWEN : Rwyf ti'n credu hynny nawr. Elli di ddychmygu byw am bum mlynedd heb air o Rydyfran, heb air o Gwmhelyg.

ALUN : Ond does dim eisiau rhoi terfyn ar bopeth.

OLWEN : Dyna fydd orau Alun : ac yng ngwaelod dy galon fe wyddost hynny.

ALUN : Paham na ellwn ni weld ein gilydd ambell waith.

OLWEN : Rydw i wedi addo i tadcu i beidio â'th weled tra bydd e byw.

ALUN : Rwyf wedi torri'r addewid honno'n barod.

OLWEN : Ydw, ond nid o fwriad. Na, Alun, fyddai hynny ddim yn deg â tadcu, nac â thithau chwaith. Rwyf am i ti fod yn rhydd.

ALUN : Pa les fydd y rhyddid hwnnw i mi. Rwy'n fodlon disgwyl blynyddau Olwen. Fe ddaw pethau'n well ar ôl dydd dy dadcu. All pethau ddim dal fel y maent yn hir.

OLWEN : Maent wedi parhau fel hyn am flynyddoedd.

ALUN : Na, fuon nhw erioed cynddrwg ag yn awr. Wyddost ti fod rhai o'n hŵyn gorau ni wedi trigo ac y mae Morgan yn cynllunio rhyw ddial trwy'r dydd.

OLWEN : Mae Dafydd cynddrwg ag yntau. Ac ni all neb wneud dim. [*Edrych i fyny i'w wyneb â rhyw rith o wên ar ei hwyneb.*] Dyma ddiwedd ar ein caru ni, Alun.

ALUN : Nage . . .

OLWEN : Efallai y cwrddwn ni ymhen rhyw ugain

mlynedd. Fe fyddi di wedi cael gafael ar ryw nyrs bert . . .

ALUN : Rhaid i ti beidio â siarad felna Olwen. Nid dyma'r diwedd.

OLWEN : Dwyt ti ddim wedi cyfarwyddo â'r syniad eto. Ond yr wyf i wedi cael amser i feddwl digon amdano. Dydw i wedi meddwl am ddim arall oddi ar pnawn ddoe.

ALUN : A gawn ni ysgrifennu at ein gilydd, ynteu ?

OLWEN : Na, Alun, wnaiff hi mo'r tro.

ALUN : Beth bynnag, fedri di ddim fy rhwystro i ysgrifennu atat ti.

OLWEN : Na fedra, ond rwy'n gobeithio na wnei di ddim. Rhwystro'r clwyf i wella a wnei di . . . dim arall. Un gobaith sydd o'n blaen ni . . . y gobaith y gallwn ni anghofio.

ALUN : Wyt ti'n meddwl y gelli di anghofio . . .

OLWEN : Nac ydw, fel y mae gwaetha'r modd . . . dyna'n hunig obaith ni serch hynny.

ALUN : Wyt ti'n cofio mor hapus yr oeddem wythnos yn ôl yn ysgrifennu at ein gilydd ac yn edrych ymlaen at y gwyliau yma ?

OLWEN : Paid, Alun, paid. Mae'n ddigon anodd heb feddwl am bethau felly.

[*Clywir lleisiau WILLIAM a JONATHAN y tu allan.*]

WILLIAM [*y tu allan*] : Do, roedd yna grop ardderchog. Fe gawn ddau olau o wair hadau eleni.

OLWEN [*yn wyllt*] : Mae Ifan wedi anghofio. Cerdd. Ar unwaith.

ALUN : Aros . . .

OLWEN [*yn pwyntio at y drws, D*] : Trwy ddrws y ffrynt.

ALUN [*yn cydio ynddi*] : Gad i mi gael un cyfle . . .

OLWEN [*yn ymryddhau ei hun*] : Os oes gennyf olwg arna i, cerdd ar unwaith Alun. [*Yn mynd at y drws Ch. ac yn ei ddal yng nghau i rwystro neb i mewn.*]

ALUN [*yn dod ar ei hôl*] : Ond gwrando, efallai na welaf mohonot . . .

OLWEN : Rwy'n erfyn arnat Alun . . . fe'u cadwaf am eiliad. [*Try at y drws, â'i chefn at ALUN. Saif ef am eiliad ac yna try ac â allan i'r Dd. Try hithau i edrych arno. Cyn gynted ag y bo drwy'r drws, egyr OLWEN y drws Ch. a saif yno.*]

[*Yn ymdrechu siarad yn naturiol*] Helo, beth ydych chi'n ei wneud y ffordd hyn heno, nwnawl ?

WILLIAM [*o'r golwg*] : Cerdd o'r ffordd i ni gael dod i mewn. [*Deuant i mewn ill dau. Eistedd WILLIAM yn y gadair. Saif JONATHAN. Â OLWEN yn ôl at ei gwaith.*] Dyw'r coleg ddim wedi cael fawr o effaith arni, wel di. Mae hi wrth rywbeth o fore tan nos. Fe wnâi eitha gwraig fferm er ei holl addysg.

JONATHAN : Mae'n sicr o ffeindio gwell gwaith na hynny. Pryd wyt ti'n disgwyl clywed a wyt wedi pasio neu beidio, Olwen ?

OLWEN [*heb godi ei phen*] : Dwn i ddim yn iawn.

WILLIAM : Beth sy'n bod arnat ti ? Wyt ti wedi bod yn llefain ?

OLWEN [*yn gwneud ymdrech*] : Nac ydw, siŵr.

WILLIAM : Rwy'ti'n edrych dipyn yn llipa. Gwneud gormod ar y gwres yma, debyg iawn.

OLWEN : Rwy'n eitha reit.

WILLIAM : Rwy'ti yn cadw digon o sŵn pan fydda i'n sôn am fynd allan. Rhaid i mi dy gadw di yn y tŷ os na welli di dy raen. Dwy'ti ddim yn gofidio a wyt ti wedi pasio neu beidio, wyt ti ?

OLWEN : Nad ydw ddim, tadcu.

WILLIAM : Mae'n disgwyl clywed cyn nos, wel di, Jonathan. Mae teligram i fod i ddod.

[*Gesyd IFAN ei ben drwy'r drws Ch. Gwna ystumiau i geisio egluro i OLWEN beth a ddigwyddodd.*]

WILLIAM : Beth sy'n bod arnat ti ? Ydy'r llaeth enwyn wedi codi i dy ben di ?

IFAN : Eisiau gweld Olwen am eiliad yr oeddwn i.

WILLIAM : Pam na ddwedit ti hynny, ynteu, yn lle gwneud stumiau fel dyn â'r colic arno. A beth yw'r holl ddirgelwch yma ?

OLWEN [*yn mynd at IFAN*] : Mae popeth yn iawn, Ifan—popeth yn eitha reit.

IFAN : Roedd gormod o hadau gwair yn fy ngwddf i chwiban. Fe wnes fy ngorau ond wnes i ddim mwy o swm na chyw bach.

WILLIAM : Beth gynllwyn ydych chi'ch dau yn siarad fanna ?

IFAN : Dim byd ond . . .

OLWEN : Cyfrinach rhwng Ifan a minnau, a does neb arall i wybod, oes e, Ifan ?

IFAN : Na . . . dim ond chi a mi . . . rhaid i mi fynd. Mae Sara ar ben y tŷ gwair yn disgwyl i mi fynd â'r ysgol iddi i ddod lawr, a fe fydd yn ymestyn ei thafod yn ofnadwy os cadwa i hi i ddisgwyl rhagor.

WILLIAM : Ifan !

IFAN : Ie, mistir ?

WILLIAM : Pan fyddi di wedi gorffen yn yr ydian, cerdd i'r cae gwair isa i agor tipyn â'r bladur. Fe fydd cystal i ni ddechrau ei dorri bore fory.

IFAN : O'r gorau. [*Allan*].

[*OLWEN yn mynd â'r ddwy fasgedaid wyau allan ar ei ôl.*]

WILLIAM : Eistedd, Jonathan, does dim brys arnat ti, oes e ?

JONATHAN [*yn eistedd yn araf*] : William, wyddoch chi ble buais i neithiwr ?

WILLIAM : Na wn i.

JONATHAN : Euthum dros y mynydd i weld Walter Tyllwyd gynt.

WILLIAM : Mae e'n eitha gwael, on'd yw ?

[*OLWEN yn ôl, ac yn rhoi lliain dros y bwrdd ac yn y blaen.*]

JONATHAN : Mae e bron ar ben . . . yn ei wely ers tri mis. [*Tynnu papur o'i boced.*] Darllenwch y papur yna.

WILLIAM : Beth yw e ?

JONATHAN : Darllenwch e.

WILLIAM [*yn ei estyn i Olwen*] : Darllen e, Olwen. Mae dy lygaid yn well na'm rhai i.

OLWEN [*yn rhoi cip gyflym arno*] : Ydy hwn yn wir, nwnwcl ?

JONATHAN : Bob gair. Mae Walter wedi ei seinio a'i wraig yn dyst. Fe ddeil mewn llys gwlad, petai eisiau hynny.

WILLIAM : Beth yw e, hawyr bach ? Darllen e.

OLWEN : Rydych wedi bod yn rong drwy'r blynyddau, tadcu. Doedd gan fechgyn Rhydyfran ddim i'w wneud â marwolaeth 'nhad.

WILLIAM : Beth wyt ti'n geisio glebran, ferch ? Beth sy gan Walter Tyllwyd i wneud â hynny ?

JONATHAN : Fe oedd yn gyfrifol, William.

WILLIAM : Beth ?

JONATHAN : Mae'n eitha gwir.

WILLIAM : Amhosibl.

OLWEN : Mae e'n dweud hynny ar y papur ac wedi ei seinio.

WILLIAM : Ydy Walter wedi cyfadde ?

JONATHAN : Ydy. Fe ddanfonodd amdanaf. Roedd e wedi clywed fod pethau wedi mynd o ddrwg i waeth rhyngoch chi . . .

WILLIAM : Ond pam na fyddai wedi cyfadde cyn hyn ?

JONATHAN : Ni fyddai ddim wedi cyfadde neithiwr onibai ei fod wedi mynd yn rhy bell i'r gyfraith gael gafael arno.

WILLIAM : Ond doedd ganddo fe ddim yn erbyn Dafydd.

JONATHAN : Anlwc oedd hi. Fe saethodd at ffesant heb wybod bod Dafydd a'r ebol ar yr heol.

WILLIAM : Ai ceisio fy nhwyllo yr wyt ti, Jonathan ?

JONATHAN : Ydych chi ddim yn cofio ? Yr wythnos honno yr oedd wedi dod allan o'r carchar am botsian.

Petai'r sgweier yn ei ddal a'i ddryll allan wedyn, fe gollai ei dŷ a chael chwe mis o garchar o leiaf, heb sôn am y polis yn mynd ag e ymlaen am ladd dyn.

OLWEN : Mae hyn yn newid popeth, tadcu.

WILLIAM : Newid beth ?

OLWEN : Rydych wedi cyhuddo pobl Rhydyfran ar gam. Fe ddylai rhywun fynd ar unwaith i fegian eu pardwn . . .

WILLIAM : Fi . . . fi . . . i fegian pardwn pobl Rhydyfran ?

OLWEN : Maen nhw . . .

WILLIAM : Paid â dweud dim gair yn rhagor. Wyt ti'n meddwl fod hyn yn mynd i'm rhwystro i wasgu'r bechgyn yna allan o Rydyfran ?

OLWEN : Ond y chi sydd ar fai, tadcu.

WILLIAM : Mae gen i ddigon o gownt â nhw eto. Dydw i ddim wedi anghofio eu bod wedi troi fy mrawd allan oddi yno.

JONATHAN : Ofer fu fy siwrne i neithiwr ynteu.

WILLIAM : Mae pethau wedi mynd yn rhy bell i ryw damaid o bapur fel hwn i'w gwella nawr.

JONATHAN : Nid chi yw'r cynta i fethu gweld gwerth tamaid o bapur pan fo ysbryd cas yn cynhyrfu.

WILLIAM : Jonathan, rwy'ti'n dweud pethau na chymrw'n i mohonyn nhw oddi wrth neb arall. Paid â mynd yn rhy bell.

JONATHAN : Yna, rwy'n mynd i symud fy na blwyddi o'ch tir chi.

WILLIAM : Ond bachgen andras, bore heddiw yr aethost ti â nhw yno, a ble cei di ddŵr iddyn nhw ?

JONATHAN : Wn i ddim. Fe'u gwerthaf yn y mart nesa neu rywbeth.

OLWEN : O nwnawl . . .

WILLIAM : Mi wn i beth sydd yn dy fol di. Rwy'ti wedi bod yn siarad â'r Morgansiaid.

JONATHAN : Do, waeth gen i chi wybod hynny. Fe ddanfonodd yr hen wraig amdanaf bore heddiw.

WILLIAM : Danfon i'th mofyn, do fe ? Mae'n dechrau teimlo'r gorden am ei chorn gwddf o'r diwedd.

JONATHAN : William, am y tro ola, gwrandewch arna i ac Olwen. Torrwch y gron yna ar eich mynydd.

OLWEN : Ie, tadcu . . .

JONATHAN : Er mwyn popeth, peidiwch â bod yn benstiff. Y chi sy'n mynd i ddiode mwy. Mae'r bechgyn yna'n ffyrnig. Does ganddyn nhw ddim rhagor i'w golli ar ôl colli'r fferm.

OLWEN : Beth maen nhw'n mynd i'w wneud, nwnawl ?

JONATHAN : Wn i ddim, ond rwy'n ofni . . .

OLWEN : Beth ?

JONATHAN : Dwn i ddim beth yr wy'n ei ofni . . .

WILLIAM : Beth sy'n dy ben di ?

JONATHAN : Wn i ddim yn siŵr, William. Wnaethon nhw ddim ond fy rhybuddio i i fynd a'm da o'ch mynydd chi.

WILLIAM : Feiddien nhw ddim . . .

JONATHAN : Mae dyn ar fodd i yn barod i feiddio popeth. A sut gellwch chi eu rhwystro ?

WILLIAM : Fe wylia i'r giwed.

JONATHAN : Ellwch chi ddim eu gwyllo o hyd yn y tywyllwch.

WILLIAM : Rhaid i ti fynd yno a'u rhybuddio . . .

JONATHAN : Mae'n rhy hwyr i hynny nawr. Chi raid fynd atynt, wna neb arall y tro. Os ewch a chynnig cymodi . . .

WILLIAM : Dibrisio fy hunan o flaen Shani Rhydyfran a'i chywion ? Dim byth ! Olwen, cerdd i alw ar Dafydd.

OLWEN : Beth gwell fyddwn i o alw ar Dafydd ?

JONATHAN : Nawr, William, mae pethau wedi dod i'r pen. Mae'r papur yma yn rhoi digon o esgus i chi fynd atynt. Efallai y bydd yn rhy hwyr fory . . .

[*Daw DAFYDD i mewn ar frys. Â at y lle tân, tynn y dryll i lawr, yna â at y dreser, cymer dduwy gartrisen o'r drôr, ac wrth fynd trwy y drws gwelir ef yn llwytho'r dryll—y cwbl heb wneud sylw o neb.*]

OLWEN : Dafydd, ble wyt ti'n mynd ?

WILLIAM : Beth wyt ti'n mynd i'w wneud ? Gwranddo funud, Dafydd. Mae dy—nwncwl . . .

OLWEN : Beth wyt ti'n mofyn â'r dryll ? [*Cais gydio yn ei fraich ond y mae ef yn ymryddhau.*] Dafydd . . .

WILLIAM : Gwranddo fachgen. Mae'r Morgansiaid wedi dweud wrth dy nwncwl . . .

DAFYDD [*wrth fynd allan*] : Does gen i ddim amser nawt. [*Allan. OLWEN ar ei ôl.*]

WILLIAM : Beth oedd wedi codi ar Dafydd ?

JONATHAN : Mae'n well i mi fynd i weld.

WILLIAM : Na, aros fan lle rwy'ti. Wedi gweld cwningen neu rywbeth neu lygod ffrengig efallai yn yr ydian.

JONATHAN : Roedd golwg wyllt arno. Rwy'n ofni gweld dryll yn nwylo'r bechgyn yma y dyddiau hyn. [*Clywir ergyd heb fod ymhell o'r tŷ.*]

WILLIAM : Yn y cae dan tŷ y saethodd e, beth bynnag a saethodd.

JONATHAN : Wel, dyma fi wedi gwneud fy ngorau rhyngoch chi, William . . .

[*Daw MRS. LLOYD i mewn yn edrych yn hollol ddiysbryd.*]

MRS. LLOYD : Un peth ar ôl y llall—y cwbl yn benben. Does dim diwrnod heb fod rhywbeth ofnadwy yn digwydd.

WILLIAM : Beth sy wedi digwydd nawt ?

MRS. LLOYD : Dim ond un marc arall yn ein herbyn ar lyfr pobl Rhydyfran.

[*Daw DAFYDD i mewn ac OLWEN yn ei ddilyn. Gesyd y dryll ger y dreser.*]

DAFYDD : Wel, dyna Rofer wedi ei ddial o'r diwedd.

WILLIAM : Beth wnest ti ? Saethaist ti eu ci defaid nhw ?

DAFYDD : Do. Ddaw hwnnw ddim â rhagor o gwpanau treialon cwn defaid i Rydyfran.

OLWEN : Sut gellaist ti ! Sut gellaist ti wneud y fath beth ?

DAFYDD : Sut gellais i ? A finnau'n cofio beth ddigwyddodd i Rofer ? Roedd e'n rowndio'n hŵyn tewion ni ac yr oedd yn gyfle rhy dda i'w golli—y cyfle wyf wedi bod yn ddisgwyl oddi ar i mi ddechrau trafod dryll.

MRS. LLOYD [*wrth WILLIAM*] : A ydych chi'n falch ar eich cynhaea ?

JONATHAN : Rwy'n mynd i symud fy na o'r mynydd cyn ei bod yn rhy ddiweddar.

MRS. LLOYD : Aros funud. Rwy'n ofni y daw rhai o'r bechgyn yna yma. Da thi, paid â mynd.

DAFYDD : Pa wahaniaeth os dôn nhw ? Roedd gen i berffaith hawl i saethu eu ci nhw os oedd e ar ôl ein hŵyn ni.

[*Rhuthra MORGAN i mewn a dilynir ef gan ALUN. Mae MORGAN wedi dod yn syth o'r cae gwair.*]

MORGAN [*bron yn llefain gan dymher*] : A pha ddrwg oedd y ci wedi ei wneud i chi ? Fe fydd yn edifar . . .

DAFYDD [*y mae OLWEN rhyngddo a MORGAN*] : Pa ddrwg oedd Rofer ni wedi ei wneud slawer dydd pan saethodd dy dad e ?

MORGAN : Doedd distrywio'r fferm a'r stoc ddim yn ddigon i chi, y cythreuliaid. Roedd yn rhaid i chi ladd y ci gorau a fu yn yr ardal yma erioed. Ond fe gewch chi dalu, rhen batriarch. O cewch ! Jonathan Humphries, ewch â'ch da o'u mynydd gynted ag y galloch.

JONATHAN : Doedd gen i ddim i'w wneud â . . .

MORGAN : Dydw i ddim yn dweud hynny. Rydych yn cael eich gwasgu yr un peth â ninnau. Ond sefwch chi o'r ffordd o hyn allan, dyna i gyd, neu fe fyddwch yn gorfod diodde fel y mae'r rhain yn mynd i wneud.

JONATHAN : Gwrando arna i, Morgan . . .

MORGAN : Wrandawa i ddim rhagor ar neb. Mi ddialaf Carlo hyd yn oed os bydd yn rhaid i mi dreulio'r gweddill o'm hoes yn y carchar. [*Wrth WILLIAM*] Fe *gewch* chi eich arian, ond fe fydd eich teulu'n gweiddi'n groch am drugaredd cyn y bydda i wedi gorffen â chi.

DAFYDD [*wrth OLWEN yn ddistaw*] : Gad fi'n rhydd.

OLWEN [*yn cydio'n dynnach*] : Na, chei di ddim.

MORGAN : Ie, gadewch e'n rhydd, os nad yw e am guddio y tu ôl i chi.

ALUN [*yn cydio yn MORGAN*] : Fyddi di damaid gwell, Morgan. Paid . . .

MORGAN : Dwyt ti na neb arall yn mynd i ddweud *paid* wrthyf fi ragor. Dwyt ti'n meddwl am neb ond am y faeden yna. Elli di ddim gweld pethau'n blaen nawr? Wyt ti'n meddwl ei bod hi un gronyn gwell na'r lleill?

ALUN : Morgan, gwrando . . .

MORGAN : Fe werthai ei hun yn gorff ac enaid i'th gael i'w chrafangau. Digon tebyg ei bod wedi cynnig ei hun i ti . . .

[DAFYDD *yn ymysgwyd yn rhydd a chydio yn y dryll.*]

OLWEN } [*yn hanner* {Nwncwl ! Alun ! . . .

MRS. LLOYD } *sgrchain* } Dafydd . . .

DAFYDD : Fe ddysga i iddo fe . . .

[*Sgarmes am y dryll. Pawb yn cydio ynddo. Yn ystod y sgarmes a thra y mae y dryll yn pwyntio at OLWEN, mae'n tanio. Eiliad neu ddwy o ddistawrwydd, ac yna gwelir OLWEN yn syrthio. Deil ALUN hi cyn iddi syrthio i'r llaw. Sgrech oddi wrth MRS. LLOYD.*]

ALUN : Ble alla i fynd â hi !

MRS. LLOYD : Dewch â hi i'r parlwr.

[*Cluda ALUN hi drwy'r drws ar ôl MRS. LLOYD. Saif*

DAFYDD *yn yr unfan fel pe heb ystyried beth sydd wedi digwydd, ac yna syrth y dryll o'i law. Try yn araf, ac â ar eu hól drwy'r drws. Dilynir ef gan WILLIAM.*]

[*Ennyd o ddistawrwydd.*]

MORGAN : Doedd dim bai arna i, Jonathan.

JONATHAN : Doedd dim bai ar neb, Morgan. Go-beithio i Dduw na anafwyd hi'n ddrwg. Mae arswyd wedi bod arna i oddi ar pan ddaeth Dafydd i'r tŷ i mofyn y dryll.

[*Daw SARA yn wyllt o'r chwith.*]

SARA : Beth sy'n bod? Beth oedd yr ergyd yna yn y tŷ? A beth mae hwn yn mofyn yma [*pwyntio at MORGAN*] heno eto . . . ?

JONATHAN : Paid â gweiddi, Sara. Bu yma anlwc . . .

SARA : Olwen ! Fe wyddwn . . . ble mae hi ?

[*JONATHAN yn amneidio a'i ben. SARA allan i'r dde yn gyflym.*]

MORGAN : Nid fy newis i oedd y gynnen yma, Jonathan. Baich a roddwyd ar fy ysgwydd i ydoedd. Dydw i ddim ond wedi gwneud fy rhan fel pawb arall o'r ddau dylwyth.

JONATHAN : Mae'n rhy ddiweddar i sôn am hynny nawr. [*Daw ALUN yn ôl*]. Ydych chi ddim yn mynd i mofyn doctor neu rywbeth ?

ALUN [*yn siarad yn araf*] : Mae hi wedi mynd yn rhy bell i unrhyw ddoctor. [*Ennyd.*] Mae'n well i ni fynd, Morgan. O, gan Dduw na fuaswn wedi dy rwystro i ddod yma o gwbl !

[*Daw WILLIAM i mewn.*]

WILLIAM : Beth wnes i erioed i deilyngu ergyd fel hwn !

ALUN [*yn torri allan*] : Gwnaethoch ddigon. Cawsoch gyfle i . . .

JONATHAN : Alun, 'machgen i ! Mae'n well i chi eich dau fynd.

WILLIAM [*heb gymryd sylw ohonynt*] : Os gwnes i ryw-beth, pam na chawn i ddiode yn ei lle hi? Fu dim ysbryd cas yn agos ati erioed. Daeth dim gair cas o'i genau . . .

[*Daw IFAN i mewn yn wyllt o'r Ch., a theligram wedi'i agor yn ei law.*]

IFAN [*yn siarad yn uchel ac yn gyflym*] : Ble mae hi ?
Ble mae hi ? Mae hi wedi pasio—fe ddwedais y gwnâi
hi. Dyma'r teligram—fe'i agorais. [*Yn estyn y teligram*
i WILLIAM, *yna'n sylweddoli bod rhywbeth o'i le. Ni ddywed*
neb air.] Beth sy'n bod ?

JONATHAN : Bu yma anlwc â'r dryll, Ifan.

IFAN : Anlwc ?

JONATHAN : Ie, anlwc drwg . . . i Olwen.

[*MORGAN ac ALUN yn mynd allan.*]

IFAN : Dyw hi ddim . . . dyw hi ddim ? . . .

JONATHAN : Ydy, Ifan . . .

IFAN : Dyw'r peth ddim yn wir ! Mae'n amhosibl !
Gynnau roedd hi'n chwerthin arna i—rhoddodd gusan
i mi. Addewais y gwnawn i unrhyw beth drosti . . .

WILLIAM : Fedri di na ninnau wneud dim rhagor
drosti, Ifan. Mae Olwen wedi mynd, a ninnau, rhai
na welsai neb o'n heisiau, ar ôl.

[*Syrth y teligram o law IFAN. Tynn ei het yn araf a*
disgyn y Llen.]

EPILOG

[*Wythnos ar ôl Act III. MRS. LLOYD wrth y bwrdd yn*
gwneud yr un gwaith ag a oedd yn ei wneud yn y Prolog.
Y mae mewn ffrog ddu a ffedog wen. WILLIAM LLOYD
yn dod i mewn o'r Ch. fel yn y prolog.]

WILLIAM : A dyna'r diwedd, Rachel. Rwyf wedi bod
yn Rhydyfran am y tro cynta ers yn agos i hanner can
mlynedd.

MRS. LLOYD : Dewch i eistedd. Rydych wedi blino.

WILLIAM : Doedd e ddim yn waith hawdd, ond doedd
e ddim ond y lleiaf a allwn i wneud ar ôl y ffordd y
rhoddodd y bechgyn eu tystiolaeth yn y cwest. Wyddost
ti, Rachel, fwaswn i ddim wedi cael digon o nerth i fynd
yno onibai mod i'n clywed llais Olwen yn fy nghlust
bob tro oeddwn i am droi 'n ôl.

[*MRS. LLOYD yn eistedd ac yn wylo'n ddistaw.*]

Rwy'n credu bod Olwen yn gwybod bod dŵr yn rhedeg
i dir Rhydyfran yn awr, a mod i wedi bod yno.

[*Ennyd o ddistawrwydd.*]

Wyddost ti beth ddaeth i'm meddwl pan ddois i mewn
yn awr a'th weld di'n glanhau cyllyll fanna ? Y
diwrnod hwnnw, bymtheng mlynedd yn ôl pan ddois
i mewn i ddweud fod Rofer y ci wedi ei saethu . . .

MRS. LLOYD : Nid meddwl am yr hyn a fu a ddylem
ni nawr, ond am Dafydd. Fe sydd â'r baich tryma.
Mae wedi bod mor rhyfedd oddi ar y cwest. Ddwed e
run gair wrth neb, ond fe'i clywais bore heddiw yn
siarad â'r ceffylau yn y stabal . . . roedd yn dorcalonnus.

WILLIAM : Ddylai'r crowner ddim fod wedi dweud
yr hyn a ddwedodd e. Nid yw gwaed Olwen ar ei
ddwylo fe mwy nag ar fy nwylo i. Ydy e wedi dweud
rhywbeth wrthyt ti ?

MRS. LLOYD : Fe geisiais siarad ag e ddoe, ond atebai fe ddim gair. All e ddim dal y baich yn hir . . .

[DAFYDD *yn dod i mewn o'r chwith yn sydyn ac yn siarad cyn gynted ag y daw i mewn a'r geiriau yn llifeirio allan.*]

DAFYDD : Ydych chithau'n siarad amdana i eto ? Dalla i ddim diodde rhagor . . . mi af yn wallgo. Ble bynnag af i . . . pawb rwy'n weld . . . popeth yn fy nghyhuddo . . .

MRS. LLOYD [*yn mynd ato*] : Rhaid i ti geisio anghofio Dafydd . . .

DAFYDD : Anghofio ? Anghofio'r dyn yna'n dweud fod ei gwaed hi ar fy nwylo i ? Nid fy newis i oedd y gynnen—ches i ddim dewis erioed—fu gen i ddim bywyd ar wahân a'r gynnen.

MRS. LLOYD : Does neb yn dy feio di, Dafydd bach . . .

DAFYDD : Fuaswn i ddim wedi cydio yn y dryll onibai iddo fe ei galw hi'n . . . [*metha ddweud y gair*].

MRS. LLOYD : Paid, Dafydd . . .

DAFYDD : Wnes i ddim ond y peth wnâi undyn ac yntau'n clywed rhywun yn dweud yr hyn a ddwedodd Morgan amdani. Pam na fyddai'r crowner yn meddwl am hynny ?

WILLIAM : Mae pawb yn gwybod mai anlwc . . .

DAFYDD : Pawb yn edrych arna i fel llofrudd . . . pawb.

WILLIAM : Nac oes neb, Dafydd bach, dim ond dychmygu hynny wyt ti . . .

DAFYDD [*yn codi ac yn troi ar ei dadcu am y tro cyntaf yn ei fywyd*] : Y chi a'm dysgodd i gasâu pobl Rhydyfran—o'r dydd y saethwyd Rofer. Fy nysgu i drin y dryll a pheidio â dangos trugaredd . . . i ddial o hyd ac o hyd. Ac i ba ddiben ? I saethu fy . . . [*yn torri i lawr.*]

[*Ni chyfyd yr hen ŵr ei ben.*]

MRS. LLOYD : Dyma'r peth dwetha fyddai Olwen am i ti ei wneud, Dafydd. Gwrando. Fe fu tadcu draw yn

Rhydyfran. Fydd dim achos teimlad cas rhwng y ddau deulu fyth mwy.

DAFYDD : Faint gwell ydw i o hynny nawr ? [*yn codi*]. Alla i ddim aros yn y lle yma ragor—popeth yn fy atgofio amdani—pob perth a chlawdd, pob bwch a chamfa. Does dim anghofio i mi yma. Mi af i ffermio yn rhywle digon pell—i Ganada neu rywle, lle na fydd pawb yn edrych arna i fel rhywun aflan.

WILLIAM : Rhy hwyr, rhy hwyr ! Mae'r olwynion wedi troi yn rhy bell.

MRS. LLOYD : Ydynt, ond does dim rhaid i Dafydd i gael ei wasgu ganddynt. Pan ofynnais i chi bymtheng mlynedd yn ôl am gael mynd ag e oddi yma, gwrthod wnaethoch chi. Nawr, chewch chi ddim o'i rwystro.

DAFYDD : Rwy'n mynd, beth bynnag ddwed neb.

MRS. LLOYD : Mi ddof fi gyda thi, os wyt am i mi ddod, os galla i wneud unrhyw help i ti ddechrau byd o'r newydd.

WILLIAM : A gadael Cwmhelyg ?

MRS. LLOYD : Ie, a gadael Cwmhelyg. Mae'r lle wedi gweld fy ngorau i a'r plant. Chaiff y tylwyth ddim distrywio bywyd Dafydd hefyd. Rwyf wedi colli un plentyn a dwyf fi ddim yn mynd i golli'r llall.

WILLIAM : Yma mae fy ngwreiddiau i. Alla i ddim diwreiddio fy hunan yn awr petawn i am. Fe fydda i byw yma am yr ychydig sydd gen i i fyw eto. Fe fydd un o'r tylwyth yng Nghwmhelyg tra bydda i byw.

DAFYDD : Y tylwyth ! Nhw achosodd y cyfan. Y tylwyth oedd yn chwythu tân y gynnen yn fyw bob tro yr oedd hi'n barod i ddiffodd—y tylwyth aberthodd Olwen ar allor y gynnen. Rwy'n di-arddel y tylwyth, ches i ddim ond gofid o'u harddel. O hyn allan, rwy'n mynd i fyw fy mywyd fy hun ac nid bywyd y tylwyth. Rwy'n mynd heno, mam, i chwilio am gartre newydd i chi a minnau. [*Allan*].

[*Ennyd o ddistawrwydd.*]

DAU DYLWYTH

WILLIAM [*yn isel ac araf iawn*] : Fe arhosa innau yma—fe fydd Ifan a Sara gen i . . . ac Olwen. Bydd ei chwmmi hi gen i, yn fy ngalw i'r tŷ amser bwyd o ddrws y gegin fel roedd hi'n arfer, yn datod fy sgidiau wrth y tân fan hyn, ac yn gwenu arna i o fore hyd nos. [Mrs. LLOYD *yn wylu a'i hwyneb yn ei ffedog.*] Fydd hi ddim yn unig arna i. Chaf fi ddim cam tra bydd hi yma i edrych ar fy ôl. O na chaf. Olwen a minnau yn ddeiladon Cwmhelyg.

LLEN.